Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service




# Asesiad Perfformiad Blynyddol 2023/2024

# Fersiynau Amgen

## Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat neu iaith amgen, gan gynnwys ar ffurf sain, cysylltwch â ni ar: 0370 6060699 neu drwy e-bost: mail@mawwfire.gov.uk.

## Saesneg

This document is also available in accessible formats. If you would like this information in an alternative language or format, including audio, please contact us on 0370 6060699 or email: mail@mawwfire.gov.uk.

## Arabeg

**هذه الوثيقة متوفرة ايضا بطرق تسهل قراءتها، لو تريد هذه المعلومه بلغة أخرى أو بشكل اخر، اضافة بطريقة مسموعة، المرجوا التواصل معنا عبر 03706060699 او عبر البريد الالكتروني : mail@mawwfire.gov.uk**

## Tseinieeg

该文档也备有无障碍格式版。如果您需要信息通过不同语言或格式提供，包括语音版本，请拨打 0370 60 60 699 或电邮到 mail@mawwfire.gov.uk 跟我们联系。

## Nepaleg

यो दस्तावेज अन्य सजिला फर्मेटहरूमा पनि उपलब्ध छ। यदि तपाईं यो जानकारी अडियोसमेत अन्य वैकल्पिक भाषा वा फर्मेटमा चाहनुहुन्छ भने कृपया हामीलाई फोन नं.: 0370 6060699 वा ईमेल: *mail@mawwfire.gov.uk* मा सम्पर्क गर्नुहोस्।

## Pwyleg

Istnieje również możliwość uzyskania niniejszego dokumentu w dostępnych formatach. Jeśli chce Pan/Pani otrzymać niniejsze informacje w innym języku lub formacie, w tym w wersji dźwiękowej, prosimy o skontaktowanie się z nami telefonicznie: 0370 6060699 lub drogą mailową: *mail@mawwfire.gov.uk*.

## Pwnjabeg

"ਇਹ ਦਸਤਾਵੇਜ਼ ਪਹੁੰਚਯੋਗ ਫਾਰਮੈਟਾਂ ਵਿਚ ਵੀ ਉਪਲਬਧ ਹੈ. ਜੇ ਤੁਸੀਂ ਇਹ ਜਾਣਕਾਰੀ ਕਿਸੇ ਵਿਕਲਪਿਕ ਭਾਸ਼ਾ ਜਾਂ ਫਾਰਮੈਟ ਵਿਚ ਚਾਹੁੰਦੇ ਹੋ, ਜਿਸ ਵਿਚ ਆਡੀਓ ਵੀ ਸ਼ਾਮਲ ਹੈ, ਕਿਰਪਾ ਕਰਕੇ ਸਾਡੇ ਨਾਲ ਸੰਪਰਕ ਕਰੋ: 0370 6060699 ਜਾਂ ਈਮੇਲ: mail@mawwfire.gov.uk."

## Wrdw

**یہ دستاویز قابل رسائی شکلوں میں بھی دستیاب ہے۔ اگر آپ یہ معلومات آڈیو سمیت کسی متبادل زبان یا شکل میں چاہتے ہیں تو ، براہ کرم ہم سے رابطہ کریں: 0370 6060699 یا ای میل: mail@mawwfire.gov.uk**

**Cyflwyniad** ........................................................................................................ **4**

**Ynglŷn â'n Hasesiad Perfformiad Blynyddol** ........................................................ **5**

**Ein Hymrwymiad i Wella** ........................................................................................ **5**

*Dangosyddion*......................................................... ***Error! Bookmark not defined.***

*Dangosyddion Perfformiad Cymru ar gyfer 2023/2024*........................................... *8*

*Ein Perfformiad yn erbyn Siarter Ymateb i Danau Annedd Cymru Gyfan.*.............. *9*

**Ein Hamcanion Gwella a Llesiant** ...................................................................... **15**

*Amcan Gwella a Llesiant Un*.......................................................................... ***16***

*Amcan Gwella a Llesiant Dau* ...................................... ……………………………***19***

*Amcan Gwella a Llesiant Tri* ........................................ ……………………………***21***

*Amcan Gwella a Llesiant Pedwar* ................................ ……………………………***24***

*Amcan Gwella a Llesiant Pump* ................................... ……………………………***27***

**Darganfyddwch fwy.** ............................................................................................. **29**

**Atodiad 1:** Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Datganiad Cynnydd……………………………………………………………………………….30

**Atodiad 2:** Straeon newyddion da o'r gwaith a wnaed gan bob adran, rhwng 01 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 …………………………………………………………………………………..33

# Cyflwyniad

Rydyn ni'n falch o gyflwyno ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer **2023/2024.**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut rydyn ni wedi perfformio yn erbyn yr Amcanion Gwella a Llesiant y bu inni eu gosod i ni ein hunain yn ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023/2024.

Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi ymateb i:

**13,114** o ddigwyddiadau

**2583** yn ymwneud â thân

**786** o wrthdrawiadau traffig ffyrdd

**393** o ddigwyddiadau cysylltiedig â llifogydd

**1,004** o alwadau cyd-ymateb

Roeddem hefyd wedi recriwtio:

**29** Personél Amser Cyflawn (sy'n cynnwys trosglwyddiadau allanol)

**65** Personél Ar Alwad

**4** Personél Control

**37** Personél Staff Cymorth (Mae hyn yn cynnwys apwyntiadau dros dro)

Ein Gweledigaeth yw "bod yn arweinydd byd-eang mewn Ymateb i Argyfwng a Diogelwch Cymunedol" a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n cymunedau, archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a gweithio gyda'n partneriaid i ddiogelu ein cymunedau.

Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod ein Hamcanion Gwella a Llesiant yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac o fewn y gyllideb, gan barhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gwelliannau rydyn ni wedi'u cyflawni ar gyfer ein staff a'n cymunedau dros y 12 mis diwethaf.



Roger Thomas *KFSM BA (Anrh) MSc*

Prif Swyddog Tân



Cyng. Gwynfor Thomas – Grŵp Ceidwadwyr Cymru

Cadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.**
**Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.**
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

**Ynglŷn â'n Hasesiad Perfformiad Blynyddol -** Erbyn 31 Hydref bob blwyddyn, mae'n ofynnol i ni gyhoeddi ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol, sy'n adrodd am gynnydd yn erbyn ein Hamcanion Gwella a Llesiant o'r flwyddyn flaenorol. Rydyn ni’n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y ffordd yr ydym yn asesu ac yn adrodd ar ein cyflawniadau yn cael ei deall gan ein cymunedau, ein staff a'n rhanddeiliaid. Drwy gydol yr Asesiad Perfformiad hwn, byddwn yn dweud wrthych ba mor llwyddiannus y gwnaethom gyflawni'r hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud yn 2023/2024.

Mae'r Asesiad Perfformiad hefyd yn gyfle i ni nodi pa wersi rydyn ni wedi'u dysgu a sut y byddwn yn eu hymgorffori yn ein prosesau cynllunio a gwella yn y dyfodol. Gallwch gael at ein holl Gynlluniau Corfforaethol, Cynlluniau Gwella Blynyddol ac Asesiadau Perfformiad Blynyddol ar ein gwefan trwy droi at https://www.mawwfire.gov.uk/cym/.


**Ein Hymrwymiad i Wella -** Fel Gwasanaeth Cyhoeddus, rydyn ni’n gwybod ei bod yn ddyletswydd arnom i wella'n barhaus ar y ffordd yr ydym yn gweithio ac yn darparu ein gwasanaethau. Mae ein Nodau Strategol pum mlynedd, sef Ein Pobl, Ein Cymunedau, Ein Hamgylchedd, Ein Dyfodol, yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i wella'n barhaus y gwasanaethau rydyn ni’n eu darparu i'n cymunedau.

**Dangosyddion -** Mae'n ofynnol i ni adrodd yn flynyddol ar ein dangosyddion perfformiad statudol a sector. Mae'r tabl a'r graff canlynol yn rhoi trosolwg o'n perfformiad yn erbyn y dangosyddion statudol a sector hynny ar gyfer 2023/2024.


| | **Canolbarth a Gorllewin Cymru** | | **Gogledd Cymru** | | **De Cymru** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/24 (t) | 2022/23 | 2023/24 (t) | 2022/23 | 2023/24 (t) |
| **Nifer y Tanau yr aethpwyd allan atynt** | 3,023 | 2,583 | 2,011 | 1,657 | 6,031 | 5,449 |
| **Nifer y Galwadau Diangen yr aethpwyd allan atynt** | 5,161 | 5,932 | 2,674 | 2,901 | 8,746 | 9,461 |
| **Gwrthdrawiadau ar y Ffordd yr aethpwyd allan atynt** | 771 | 786 | 234 | 251 | 848 | 870 |
| **Galwadau Gwasanaeth Arbennig yr aethpwyd allan atynt** | 3,863 | 3,813 | 977 | 1,127 | 3,080 | 3,205 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Marwolaethau ac Anafiadau o Danau** | 31 | 35 | 40 | 44 | 63 | 40 |
| **Marwolaethau ac Anafiadau o Danau Damweiniol** | 27 | 26 | 35 | 40 | 52 | 34 |
| **Canran o danau annedd wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynasant** | 86.12% | 82.71% | 86.8% | 90.88% | 82.63% | 84.55% |

| Digwyddiad | 2023/ 2024 | 2022/ 2023 | 2021/ 2022 | 2020/ 2021 | 2019/2 020 | 2018/ 2019 | 2017/2 018 | 2016/2 017 | 2015/ 2016 | 2014/20 15 | 2013/20 14 | 2012/20 13 | 2011/20 12 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau | 2583 | 3023 | 3290 | 3087 | 3152 | 3734 | 3190 | 2933 | 3392 | 3491 | 3916 | 3245 | 4522 |
| Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd | 786 | 771 | 693 | 528 | 948 | 870 | 983 | 997 | 1079 | 1008 | 1133 | 1101 | 1004 |
| Galwadau Diangen | 5932 | 5161 | 4916 | 4798 | 4627 | 4895 | 4939 | 4489 | 4599 | 4464 | 4520 | 4521 | 4553 |
| Galwadau Cyd-ymatebwyr | 1004 | 1317 | 453 | 285 | 1969 | 1684 | 2546 | 3765 | 2532 | 2303 | 1914 | 1677 | 718 |
| Galwadau Gwasanaeth Arbennig ac eithrio Galwadau Cyd-ymatebwyr a Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd | 2809 | 2546 | 2521 | 2094 | 2515 | 2282 | 2122 | 1926 | 1957 | 1650 | 2346 | 2182 | 1700 |
| Cyfanswm | 13114 | 12818 | 11873 | 10792 | 13211 | 13465 | 13780 | 14110 | 13559 | 12916 | 13829 | 12726 | 12497 |




## 2023/24 Digwyddiadau yr Aethpwyd Atynt




| | 2023/2024 | 2022/2023 | 2021/2022 | 2020/2021 | 2019/2020 | 2018/2019 | 2017/2018 | 2016/2017 | 2015/2016 | 2014/2015 | 2013/2014 | 2012/2013 | 2011/2012 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau | 2583 | 3023 | 3290 | 3087 | 3152 | 3734 | 3190 | 2933 | 3392 | 3491 | 3916 | 3245 | 4522 |
| Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd | 786 | 771 | 693 | 528 | 948 | 870 | 983 | 997 | 1079 | 1008 | 1133 | 1101 | 1004 |
| Galwadau Diangen | 5932 | 5161 | 4916 | 4798 | 4627 | 4895 | 4939 | 4489 | 4599 | 4464 | 4520 | 4521 | 4553 |
| Galwadau Gwasanaeth Arbennig ac eithrio Galwadau Cyd-ymatebwyr a Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd | 2809 | 2546 | 2521 | 2094 | 2515 | 2282 | 2122 | 1926 | 1957 | 1650 | 2346 | 2182 | 1700 |
| Galwadau Cyd-ymatebwyr | 1004 | 1317 | 453 | 285 | 1969 | 1684 | 2546 | 3765 | 2532 | 2303 | 1914 | 1677 | 718 |

# Dangosyddion Perfformiad Cymru ar gyfer 2023/2024

Mae tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru yn adrodd yn flynyddol ar eu perfformiad ym meysydd penodol Lleihau Risg, Diogelwch Cymunedol, ac Iechyd y Gweithlu ac Iechyd Ariannol.

Isod ceir dadansoddiad o'n Dangosyddion Perfformiad Sector ar gyfer 2023/2024.

| Dangosydd Perfformiad | 2023/2024 Gwirioneddol | Cyfartaledd 2014/15 i 2018/19 | Cyfartaledd 2019/20 i 2023/24 | Newid Canran Cyfartalog 2014/15 i 2023/24 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr holl danau bwriadol yr aethpwyd allan atynt fesul 10,000 o anheddau** | 1,169 | 1,545 | 1,497 | -3.1% |
| **Cyfanswm yr holl danau damweiniol yr aethpwyd allan atynt fesul 10,000 o anheddau** | 1,414 | 1,805 | 1,528 | -15.3% |
| **Cyfanswm yr holl danau mewn anheddau yr aethpwyd allan atynt fesul 10,000 o anheddau** | 451 | 587 | 467 | -20.4% |
| **Cyfanswm yr holl danau damweiniol mewn anheddau yr aethpwyd allan atynt fesul 10,000 o anheddau** | 417 | 553 | 430 | -22.2% |
| **Nifer y tanau bwriadol mewn anheddau fesul 10,000 o anheddau** | 34 | 36 | 38 | 5.6% |
| **Cyfanswm y tanau mewn safleoedd nad ydynt yn gartrefi fesul 1,000 o safleoedd nad ydynt yn gartrefi;** | 164 | 216 | 175 | -19.0% |
| **Cyfanswm y marwolaethau tân fesul 100,000 o'r boblogaeth** | 7 | 7 | 6 | -14.3% |

**Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.**
**Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.**
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Marwolaethau a achoswyd gan danau a ddechreuwyd yn ddamweiniol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth:** | 4 | 6 | 4 | -33.3% |
| **Marwolaethau a achoswyd gan danau a ddechreuwyd yn fwriadol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth:** | 0 | 0 | 0 | -100.0% |
| **Cyfanswm yr anafiadau (ac eithrio cymorth cyntaf ac archwiliadau rhagofalus) yn codi o danau fesul 100,000 o'r boblogaeth** | 28 | 59 | 31 | -47.5% |
| **Anafiadau (ac eithrio cymorth cyntaf ac archwiliadau rhagofalus) yn codi o danau a ddechreuwyd yn ddamweiniol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth:** | 16 | 40 | 24 | -40.0% |
| **Anafiadau (ac eithrio cymorth cyntaf ac archwiliadau rhagofalus) yn codi o danau a ddechreuwyd yn fwriadol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth** | 3 | 5 | 2 | -60.0% |
| **Cyfanswm y galwadau diangen a achoswyd gan offer synhwyro tân awtomatig fesul 1,000 o eiddo nad ydynt yn gartrefi.** | 1,685 | 1,528 | 1,483 | -2.9% |
| **Tanau annedd yr aethpwyd allan atynt lle nad oedd larwm mwg wedi'i osod fel % o'r holl danau annedd yr aethpwyd allan atynt** | 51.0% | 40.0% | 41.0% | 15.0% |

# Ein Perfformiad yn erbyn Siarter Ymateb i Danau Annedd Cymru Gyfan.

Mae lleihau nifer a difrifoldeb tanau mewn anheddau yn flaenoriaeth allweddol i dri Awdurdod Tân ac Achub Cymru i gyd. Adlewyrchir ein llwyddiant o ran cyflawni hyn yn glir yn y gostyngiad cyson yn nifer y tanau annedd sy'n digwydd bob blwyddyn yng Nghymru.

Mae gan dri Awdurdod Tân ac Achub Cymru nod cyffredin o gynnal tuedd hirdymor tuag i lawr yn nifer yr achosion o:

- danau annedd;
- anafiadau/marwolaethau tân annedd; ac
- anafiadau difrifol i bersonél tân sy'n mynd i danau annedd.

Mae'r Siarter yn cynnwys saith ymrwymiad unigol a wnaed gan y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru i aelodau'r cyhoedd sef:

1. Arwain y ffordd o ran lleihau nifer y tanau annedd sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y cawn alwad 999 frys i fynd i dân annedd.
3. Cyrraedd tanau annedd yn gyflym a mynd â’r cyfarpar priodol i ymdrin â nhw.
4. Ymdrin â thanau'n effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.
5. Helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn dilyn tanau annedd.
6. Ymchwilio i achosion tanau annedd a dwyn pobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
7. Cynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

---

***Gellir gweld Siarter Ymateb i Danau Annedd Cymru Gyfan** ar ein gwefan*
*www.mawwfire.gov.uk*

---

Rydyn ni wedi adolygu ein perfformiad mewn perthynas â holl ymrwymiadau'r Siarter Ymateb i Danau Annedd ac mae'r canlyniadau fel a ganlyn:-

**Ymrwymiad 1**

***Byddwn yn arwain y ffordd o ran lleihau nifer y tanau annedd sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.***

Rydyn ni wedi ymrwymo i arwain y ffordd o ran cynnal tuedd tuag i lawr yn nifer yr achosion o danau annedd a marwolaethau/anafiadau cysylltiedig yng Nghymru.

Yn 2023/2024 rhoesom gyngor ac anogaeth i bobl ynghylch sut y gallent atal tanau rhag dechrau yn eu cartref a sut y gallent gadw eu hunain yn ddiogel rhag tân. Roedd ein gwaith atal yn cynnwys cyflenwi Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref

i ddeiliaid tai, yn ogystal â rhoi sgwrs i blant a phobl ifanc mewn cyfnodau allweddol ar ddiogelwch tân.

---

***Yn ystod 2022/2023 aethom allan at 417 o danau annedd damweiniol, a arweiniodd at farwolaeth 4 o bobl ac anafiadau i 16 o bobl eraill (ac eithrio cymorth cyntaf ac archwiliadau rhagofalus). Hefyd, yn ystod 2023/2024 aethom allan at 34 o danau annedd a gychwynnwyd yn fwriadol, a arweiniodd at anafu 3 pherson (ac eithrio cymorth cyntaf ar y safle ac archwiliadau rhagofalus).***

---

Mae'r duedd yn nifer y tanau annedd yn ardal y Gwasanaeth Tân ac Achub dros y pump i ddeng mlynedd diwethaf yn dangos gostyngiad graddol (ac eithrio 2013/2014, 2016/2017 a 2021/2022). Cafwyd gostyngiad sylweddol rhwng 2013/2014 a 2023/2024 (27%).

**Ymrwymiad 2:**
***Byddwn yn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y cawn alwad 999 frys i fynd i dân annedd.***

Rydyn ni wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac effeithlon pan fydd y gweithredwr yn rhoi galwadau 999 brys drwodd i ni.

Mae ein cyfleuster rheoli tân brys ar gael o hyd bob awr o'r dydd bob dydd o'r flwyddyn, gyda threfniadau arbennig ar waith ar gyfer trosglwyddo galwadau'n ddi-dor o'r naill gyfleuster rheoli i'r llall pe bai tarfu difrifol neu ymchwydd yn nifer y galwadau sy'n dod i mewn ar yr un pryd.

Mae systemau mapio ac electronig soffistigedig yn ein helpu i: a) nodi lleoliad y digwyddiad y rhoir gwybod amdano a b) anfon yr adnodd mwyaf priodol sydd ar gael i fynd at y digwyddiad.

---

***Yn 2023/2024, ymdriniasom â 21,812 o alwadau 999 brys i gyd.***

---

Mae gwybod ble mae angen ein gwasanaethau yn mynnu sgiliau arbenigol i gael gwybodaeth yn effeithiol gan alwyr a allai, er enghraifft, fod: yn anghyfarwydd â'r ardal lle maen nhw, yn ofnus neu mewn trallod, yn ifanc iawn, neu'n ymgodymu ag anawsterau cyfathrebu neu iaith.

Un sgìl pwysig arall yw adnabod pan fydd galwr yn cam-drin y system 999 drwy honni ar gam fod yna argyfwng pan nad oes, mewn gwirionedd. Mae'n drosedd gwneud galwadau diangen i'r gwasanaethau brys yn fwriadol. Yn anffodus, nid yw hynny fel petai'n atal lleiafrif o bobl sy'n cadw'r llinellau 999 yn brysur ac yn dargyfeirio gwasanaethau i ffwrdd oddi wrth bobl a allai fod mewn sefyllfa sy'n berygl bywyd gwirioneddol. Bob tro y byddwn yn mynd allan at un o'r galwadau diangen maleisus hyn, mae'n gwastraffu amser ac arian ac yn rhoi gweddill y gymuned mewn mwy o berygl.

Mewn 19% o achosion, roeddem yn gallu cadarnhau nad oedd y galwadau hyn yn ddilys ac felly osgoi defnyddio adnoddau yn ddiangen i fynd allan atynt.

**Ymrwymiad 3:**

***Byddwn yn cyrraedd tanau annedd yn gyflym a mynd â'r cyfarpar priodol i ymdrin â nhw.***

Ar ôl i ni ateb yr alwad 999 frys a dyrannu'r adnoddau mwyaf priodol i fynd allan i ddechrau at y digwyddiad, ein blaenoriaeth nesaf yw cyrraedd y digwyddiad yn gyflym, yn ddiogel a chael y cyfarpar priodol i ddelio ag ef.

---

***Yn 2023/2024 fe wnaethom ymateb i 9% o danau annedd o fewn 1-5 munud, 47% o fewn 5-10 munud, 30% o fewn 10-15 munud a 14% mewn dros 15 munud. Mae'r amseroedd ymateb hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i bersonél gyrraedd yr orsaf dân yn ogystal â'r amser teithio, felly gall nifer o bethau effeithio ar y ffigurau cyflymder ymateb, gan gynnwys y ddaearyddiaeth drefol/wledig a natur rhwydweithiau ffyrdd yn yr ardal.***

---

Mae cyflymder yr ymateb i danau annedd yn gallu bod yn hynod bwysig, ond ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd atal y tanau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf, a chael o leiaf un larwm mwg gweithredol wedi'i osod a llwybr dianc wedi'i gynllunio ymlaen llaw rhag ofn y bydd tân. Fodd bynnag, os bydd tân annedd wedi digwydd, rydyn ni'n sicrhau bod gan ein criwiau diffodd tân gyfarpar priodol i ddelio ag ef.

Arfogwn ein diffoddwyr tân â chyfarpar diogelu personol ac offer diffodd tân o ansawdd uchel. Mynnwn eu bod yn ffit ac iach yn weithredol ac rydyn ni'n sicrhau bod eu sgiliau'n cael eu hailasesu a'u hymarfer yn rheolaidd. Rydyn ni hefyd yn gwirio'n rheolaidd fod y ffordd yr ymdriniodd ein criwiau â digwyddiadau yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau diffodd tân derbyniadwy.

Rydyn ni'n cymryd diogelwch ein diffoddwyr tân o ddifrif, o ystyried natur y gwaith y maent yn ei wneud. Yn 2023/2024 aeth ein criwiau allan at 2,583 o danau mewn amrywiaeth o wahanol fathau o safleoedd ac mewn lleoliadau awyr agored. Wrth ddiffodd y tanau hynny, cafodd 10 aelod o staff gweithredol eu hanafu. O'r 10 Anaf, cafodd 1 ei ystyried fel anaf "difrifol", cafodd 4 eu hystyried yn anafiadau "Dros 7 diwrnod" ac ystyriwyd bod 5 yn 'Fân' Anafiadau o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR). O'r 10 anaf, adroddwyd bod 4 ohonynt yn rhai RIDDOR.

---

***Yn 2023/2024 aeth ein criwiau at 2,583 o danau mewn amrywiaeth o wahanol fathau o safleoedd ac mewn lleoliadau awyr agored. Wrth ddiffodd y tanau hynny, cafodd 10 aelod o staff gweithredol eu hanafu.***

---

**Ymrwymiad 4:**
***Byddwn yn ymdrin â thanau annedd yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.***

Rydyn ni wedi ymrwymo i ymdrin â thanau'n effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol. I'r perwyl hwn, rydyn ni'n arfogi ein criwiau tân tra hyfforddedig â'r sgiliau, gwybodaeth, offer diffodd tân, a'r cymorth rheoli cywir fel y byddant wedi'u paratoi'n gywir i ddelio ag amgylchiadau'r tân annedd, beth bynnag yw'r amgylchiadau hynny.

---

***Yn 2023/2024, o'r holl danau annedd damweiniol yr aethom allan atynt, cafodd 373 eu cyfyngu'n llwyddiannus o fewn yr ystafell lle cychwynasant, heb ledaenu ymhellach.***

---

Er y gallai nifer o ffactorau gyfrannu at yr ystadegyn hwn a fyddai y tu hwnt i reolaeth y criwiau a aeth allan, megis pa mor hir y cymerodd hi i rywun ddarganfod y tân yn y lle cyntaf, a oedd drysau mewnol wedi'u cau ai peidio i helpu i atal y tân rhag lledaenu, a pha mor bell i ffwrdd o orsaf dân yr oedd yr annedd, rydyn ni'n dal i ystyried bod hwn yn ddangosydd rhesymol o'n llwyddiant diffodd tân.

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd ymchwil a gwelliannau offer ac yn sicrhau ein bod yn buddsoddi amser ac ymdrech i gadw mewn cysylltiad â'r datblygiadau diweddaraf.

**Ymrwymiad 5:**
***Byddwn yn helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn dilyn tanau annedd.***

Rydyn ni'n ymrwymo i helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn dilyn tanau annedd. Mae tân yn y cartref yn gallu gwneud i bobl deimlo'n fregus iawn. Pan fydd pobl wedi colli eu heiddo, bydd angen cymorth ymarferol ac emosiynol arnynt. Pan fydd pobl wedi cael eu hanafu neu eu lladd yn y tân, gall y profiad effeithio ar y gymuned gyfan yn ogystal â'r unigolyn a'i deulu a'i ffrindiau agos.

Am y rheswm hwn, nid yw rôl y Gwasanaeth Tân ac Achub wrth gefnogi cymunedau yn dod i ben pan fydd y tân wedi'i ddiffodd a phawb wedi'i ganfod.

Ym mhob achos, ymchwilir i achos y tân a'i gofnodi'n ofalus. Bydd pob manylyn o ran sut a ble y dechreuodd y tân, pa mor bell y lledaenodd, unrhyw amgylchiadau arbennig, unrhyw ffactorau penodol a gyfrannodd at y tân, yn cael eu cofnodi fel ffynhonnell dysgu, ymchwil a monitro yn y dyfodol.

Os oes rhesymau dros gredu bod tân wedi'i ddechrau'n fwriadol mewn annedd, naill ai gan rywun sy'n byw yno neu gan rywun arall, bydd hyn yn cael sylw dilynol gyda'r Heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill.

Mewn rhai adeiladau, megis blociau o fflatiau neu dai a feddiannir gan nifer o denantiaid gwahanol, gallai'r ymchwiliadau ar ôl y digwyddiad nodi bod landlord wedi methu â sicrhau'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch tân. Yna gallai ein hymchwilwyr tân arbenigol fod yn rhan o ymchwiliad troseddol ac achos llys.

Os canfyddir bod tân wedi dechrau'n ddamweiniol, byddwn yn ymgymryd â rhyw fath o weithgaredd neu ymgyrch Diogelwch Cymunedol yn y cyffiniau, gan gynnig cyngor a thawelwch meddwl ar ffurf Archwiliad Diogelwch yn y Cartref am ddim.

**Ymrwymiad 6:**

***Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau annedd a dwyn pobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.***

Rydyn ni bob amser yn ymchwilio i achosion tanau annedd. Mewn llawer o achosion, bydd achos a tharddiad tân yn glir ac yn syml iawn, ond mewn eraill bydd angen ymchwiliad fforensig, mwy manwl i ganfod achos mwyaf tebygol y tân. Dim ond mewn lleiafrif bach o achosion y mae'r achos yn 'anhysbys'. Yn 2023/2024 cofnodwyd bod gan 16 o danau annedd achos anhysbys.

Os amheuir trosedd, bydd ymchwiliad y tân yn cael ei gynnal gyda'r Heddlu. Mae'n debygol y bydd pobl sy'n cael eu drwgdybio o roi annedd ar dân yn fwriadol yn wynebu erlyniad troseddol, er mewn rhai achosion efallai nad dyma'r unig gam gweithredu sydd ar gael - er enghraifft os yw'r tân wedi ei gychwyn gan blentyn ifanc.

---

***Yn 2023/2024 aethom allan at 451 o danau mewn anheddau, a chanfuwyd bod 34 ohonynt wedi'u dechrau'n fwriadol.***

---

Mewn rhai safleoedd preswyl, megis fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae'r ardaloedd cymunedol a’r ardaloedd a rennir yn destun rheoliadau sy'n mynnu bod gan bwy bynnag sy'n gyfrifol am y safleoedd hynny (fel y landlord neu'r rheolwr safle) drefniadau diogelwch tân da ar waith. Gall methu â gwneud hynny arwain at gamau gorfodi ac erlyn y person cyfrifol, gyda'r posibilrwydd o garcharu a/neu ddirwyon anghyfyngedig.

Fel awdurdod gorfodi, rydyn ni’n sicrhau bod personau cyfrifol yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth hon ac yn gallu dewis o blith ystod o opsiynau gorfodi sydd ar gael i ni, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb a risg y tramgwydd.

---

***Yn 2023/2024 cyflwynwyd gennym 28 Hysbysiad Gorfodi, 13 Hysbysiad Gwahardd, 189 Cwyn Diogelwch Tân, 105 Ymweliad Dilynol Archwiliad a Gynlluniwyd mewn perthynas â safleoedd nad ydynt yn gartrefi a fethodd â chydymffurfio â'r gofynion yng Ngorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.***

---

**Ymrwymiad 7:**

***Byddwn yn ceisio cynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.***

Byddwn bob amser yn ceisio cynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn. O dan ddeddfwriaeth, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu hystyried yn 'Awdurdodau Gwella Cymru' a disgwylir iddynt adolygu a gwella eu perfformiad eu hunain yn rheolaidd trwy broses ffurfiol.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don’t print if it’s not necessary.

**Ein Hamcanion Gwella a Llesiant**

Bob blwyddyn, fel rhan o'n proses gynllunio, rydyn ni'n adolygu ac yn datblygu ein Hymrwymiadau Strategol a'n Hamcanion Gwella a Llesiant. Mae ein Nodau Strategol a'n Hamcanion Gwella a Llesiant yn dweud wrth ein staff, ein cymunedau a'n rhanddeiliaid ba welliannau yr oeddem am eu gwneud yn ystod 2023/2024.

Fe wnaethom nodi a datblygu pedwar Ymrwymiad Strategol a saith Amcan Gwella a Llesiant, y credem y byddent yn lleihau risg ac yn gwella diogelwch ein cymunedau. Y rhain oedd:

**Ymrwymiad Un** – Rydyn ni wedi ymrwymo i recriwtio, cadw a datblygu gweithlu medrus iawn.

**Ymrwymiad Dau** – Rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi iechyd, lles, a ffyniant y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

**Ymrwymiad Tri** – Rydyn ni wedi ymrwymo i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

**Ymrwymiad Pedwar** – Rydyn ni wedi ymrwymo i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio drwy ddysgu sefydliadol.

**Amcanion Gwella a Llesiant 2023/2024**

**Amcan Gwella a Llesiant Un** – Byddwn yn datblygu profiad cadarnhaol i'n pobl, gan sicrhau bod llesiant yn flaenoriaeth, ac rydyn ni'n creu gweithle amrywiol sy'n ddeniadol i ymuno ag ef ac sy'n darparu cyfleoedd i ddatblygu a symud ymlaen.

**Amcan Gwella a Llesiant Dau** - Byddwn yn archwilio ffyrdd newydd i effeithio'n gadarnhaol ar y buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hirdymor y mae ein busnes yn eu dwyn i'n cymunedau.

**Amcan Gwella a Llesiant Tri –** Byddwn yn gweithio at ddod yn Sero Net erbyn 2030.

**Amcan Gwella a Llesiant Pedwar** – Byddwn yn gwreiddio cyfleoedd i grisialu, cyfathrebu a gweithredu pob agwedd ar ddysgu sefydliadol, gan feithrin diwylliant o welliant parhaus.

**Amcan Gwella a Llesiant Pump** - Byddwn yn parhau i gynnal ymarfer data sylfaenol i gefnogi aliniad strategaethau cynllunio ac ariannol a llywio datblygiad gwelliannau, amcanion a mentrau sy'n canolbwyntio ar reoli risg cymunedol.

**Amcan Gwella a Llesiant Un -** Byddwn yn datblygu profiad cadarnhaol i'n pobl, gan sicrhau bod llesiant yn flaenoriaeth, ac rydyn ni'n creu gweithle amrywiol sy'n ddeniadol i ymuno ag ef ac sy'n darparu cyfleoedd i ddatblygu a gwneud cynnydd.

**Pam ddewison ni'r Amcan hwn?**

Gwyddom fod llawer o fanteision o greu profiad cadarnhaol i'n pobl, a dyna pam mae iechyd a llesiant ein pobl yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni. Ein nod yw gwneud yr hyn a allwn i helpu ein pobl i fwynhau bywydau hirach, iachach a chyflawn, trwy greu gweithle deniadol sy'n darparu cyfleoedd i unigolion ddatblygu a gwneud cynnydd.

Rydyn ni am i'n pobl gael yr hyder a'r lle i dyfu a datblygu, gan eu galluogi i gyflawni eu potensial a chyrraedd eu nodau gyrfa. Mae darparu cyfleoedd datblygu i'n pobl nid yn unig yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir i ymgymryd â'u rôl, ond hefyd yn creu amgylchedd lle mae ein pobl yn cael eu grymuso a'u hannog i gymryd rhan yng ngwaith y Gwasanaeth ehangach. Bydd rheoli a datblygu pobl yn effeithiol yn sicrhau ein bod yn cynnal diwylliant sy'n perfformio'n dda ac yn parhau i ddarparu gwasanaethau proffesiynol ac effeithiol i chi a'n cymunedau.

Ein pobl yw ein hased mwyaf gwerthfawr. Mae'r bobl sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli i ni yn gweithio'n galed i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n cymunedau. Rydyn ni am sicrhau bod ein pobl wedi'u harfogi a'u hyfforddi i allu cyflawni eu rolau hyd eithaf eu gallu a'u hannog i gyrraedd eu potensial llawn.

Rydyn ni'n anelu at recriwtio, datblygu a chadw gweithlu medrus, dwyieithog ac amrywiol iawn sy'n cynrychioli'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Bydd y dull hwn yn nodi ac yn gwneud y mwyaf o botensial ein gweithlu ac yn cynnal gweithlu sy'n perfformio'n dda a diwylliant sy'n perfformio'n dda, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o arian cyhoeddus.

**Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:**

- Cynnal rhaglen gadarn i adolygu sut y gallwn wella recriwtio a chadw diffoddwyr tân ar alwad.
- Archwilio arferion gwaith a threfniadau hyblyg eraill sy'n cefnogi ein pobl.
- Cyflwyno proses Arfarnu newydd a fydd yn sicrhau bod ein pobl yn cael y cymorth i ennill y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt.
- Ymgymryd ag ymarfer i nodi beth sy'n gwneud gweithio i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gynnig deniadol er mwyn cefnogi gweithgareddau recriwtio a chadw.
- Sicrhau ein bod yn denu ac yn recriwtio pobl sydd â'r gwerthoedd a'r sgiliau cywir ar gyfer y rôl a'u bod yn gynrychioliadol o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

**Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein Hamcan:**

Gan gydnabod y gofynion a roddir ar staff Ar Alwad, cafodd y gofyniad i ddiffoddwyr tân ymgymryd â phrawf gwybodaeth dechnegol ei ddileu a'i ddisodli gan fodiwl rheoli criw tridiau o hyd sy'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar reolwyr yn ystod camau cynnar digwyddiad. Dyluniwyd y cwrs i ddarparu ar gyfer gweithwyr ag ystod o wahanol arddulliau dysgu, gan wneud y cynnydd yn fwy cynhwysol.

Dechreuodd adolygiad o adrannau Darparu Hyfforddiant a Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol (POD) y Gwasanaeth, gan ddatblygu cyfres o opsiynau i'w gweithredu, a gynlluniwyd i foderneiddio a gwella'r swyddogaeth Hyfforddiant a Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol bresennol. Gobeithir y bydd hyn yn cynorthwyo gyda recriwtio a chadw’r holl staff, gan gynnwys y sector Ar Alwad.

Cyflwynwyd Set Dysgu Gweithredol (ALS) i'r broses recriwtio amser cyflawn yn ystod 2023. Gweithiodd y Set Dysgu Gweithredol ar y cyd â'r cyfweliad safonol i asesu gallu unigolyn i weithio'n effeithiol mewn amgylchedd tîm. Defnyddiwyd Fframwaith Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC) i asesu ymddygiad pob ymgeisydd, a rhagwelir y bydd hyn yn sicrhau bod gan ymgeiswyr llwyddiannus y gwerthoedd a'r potensial cywir i ddatblygu'n ddiffoddwyr tân effeithiol.

Cynhaliwyd digwyddiadau Gweithredu Cadarnhaol yn ystod mis Awst, gyda'r nod o gynyddu nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, cyn cynnal ymgyrch recriwtio Amser Cyflawn ym mis Medi.

Parhaodd yr adran Darparu Hyfforddiant i roi cymorth i nodi'r hyn sy'n gwneud gweithio i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gynnig deniadol, trwy ymgysylltu ag unigolion yn y broses recriwtio. Yn ogystal, darparwyd sesiynau blasu yn hyrwyddo cyflogaeth o fewn y Gwasanaeth i grwpiau lleol, fel Clwb Rygbi'r Gweilch.

Fel rhan o ymrwymiad y Gwasanaeth i archwilio ffyrdd mwy hyblyg o weithio, gwnaed newidiadau i'r drefn oriau gwaith hyblyg, gan ehangu'r cyfnod cofnodi amser hyblyg, cael gwared ar yr amseroedd craidd, a darparu mwy o hyblygrwydd wrth gymryd amser i ffwrdd. Cafodd y newidiadau eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o chwe mis, ac roedd hynny’n rhoi cyfle i werthuso'r effaith, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae cynnig mwy o hyblygrwydd wedi gwella'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i'n gweithwyr, wrth gynnal y safonau darparu gwasanaethau a ddisgwylir gan ein cymunedau.

Lansiwyd Rhaglen Cymorth Gweithwyr newydd, a ddarperir gan Vivup. Mae'r gwasanaeth rhyngweithiol yn galluogi gweithwyr i gael gafael ar ddeunyddiau cymorth a llesiant, gan ddarparu cefnogaeth ragweithiol gyda gwybodaeth am lesiant yn ddyddiol. Roedd yr adnoddau a ddarparwyd gan Vivup hefyd yn cynnwys llinell gymorth ffôn 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn, cwnsela wyneb yn wyneb a rhithwir ar gyfer materion sy'n ymwneud â dyled a chyngor ariannol, gan gynnwys llyfrau gwaith hunangymorth y gellir eu lawrlwytho, podlediadau a blogiau.

Gwnaed gwelliannau i ddarpariaeth buddion gweithwyr y Gwasanaeth, gan gynnwys cyflwyno cynllun prynu gwyliau blynyddol i weithwyr. Mae hyn yn darparu dull

fforddiadwy i weithwyr gynyddu eu darpariaeth gwyliau blynyddol, yn ystod adegau pan fydd angen iddynt wneud hynny.

Cynhaliwyd adolygiad o'r ffordd yr ymdrinnir â gwybodaeth am anghenion niwroamrywiol ymgeiswyr a sicrhau bod cymorth priodol lle bo angen yn cael ei ddarparu yn ystod yr asesiadau Pwynt Mynediad. At hynny, diweddarwyd ffurflen gais a phrosesau recriwtio'r Gwasanaeth. Darparwyd cyfleoedd i ddatgelu, gan ganiatáu i fesurau digonol gael eu rhoi ar waith, gan ddarparu cymorth angenrheidiol.

Cyflwynwyd hyfforddiant niwroamrywiaeth i uwch reolwyr gweithredol gan gynnig gwell dealltwriaeth o sut y gellir cefnogi niwroamrywiaeth yn y gweithle. Rhoddwyd darpariaethau ar waith hefyd er mwyn i'r holl staff dderbyn hyfforddiant niwroamrywiaeth, i godi ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth, gan ganiatáu i'r gweithlu ddechrau meddwl yn wahanol.

Gwnaed cynnydd pellach wrth ddatblygu arferion recriwtio mwy diogel, megis cyflwyno datganiad recriwtio mwy diogel ar bob hysbysiad swydd wag a thudalen gwefan y swyddi gwag. Pwrpas datganiad recriwtio mwy diogel yw atal y rhai a allai fod yn anaddas ar gyfer rolau o fewn y Gwasanaeth ac atgyfnerthu'r ymrwymiad i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

Cafodd y broses Arfarnu ei hymgorffori ar draws ardal y Gwasanaeth, gan ddarparu mwy o gefnogaeth a datblygiad ymhlith staff, yn ogystal â sicrhau bod llesiant staff yn cael lle blaenllaw yn yr hyn a wnawn. Bydd y broses yn galluogi unigolion a rheolwyr llinell i gefnogi a datblygu pobl i gyrraedd eu potensial llawn, yn ogystal â thrafod dyheadau gyrfa a derbyn unrhyw gymorth sydd ei angen i'w cyflawni.

Gan weithio'n agos gyda'r Tîm Arwain Gweithredol (ELT), bu’r adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes (CCBD) yn cefnogi a hyrwyddo canlyniadau'r archwiliad diwylliannol, drwy ddatblygu strategaeth gyfathrebu sy'n rhoi lle blaenllaw i ddiwylliant sefydliadol. Ar ben hynny, rhoddodd yr adran gefnogaeth i’r Rhaglen Gwella Ar Alwad (OCIP), gan chwarae rhan hanfodol yn y modd y mae'r Gwasanaeth yn denu, recriwtio ac yn cadw diffoddwyr tân ar alwad, trwy weithio gyda rhanddeiliaid yn y grŵp, i gynnal adolygiad trylwyr o ddeunyddiau recriwtio, yr iaith sy'n cael ei defnyddio ac yn olaf, datblygu strategaeth recriwtio Ar Alwad.

**Amcan Gwella a Llesiant Dau - Byddwn yn archwilio ffyrdd newydd i effeithio’n gadarnhaol ar y buddion cymdeithasol ac economaidd hirdymor y mae ein busnes yn eu dwyn i’n cymunedau.**

**Pam ddewison ni’r Amcan Gwella a Llesiant hwn?**

Fel sefydliad mawr, rydyn ni’n cydnabod y gallwn gael effaith sylweddol ar yr economi ac rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gwneud ein dyletswydd foesol i wneud y mwyaf o'r buddion hyn i'r cymunedau rydyn ni’n eu gwasanaethu, gan wella ein cyfraniad at yr economi leol a lleihau costau i gymdeithas.

Mae gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r cymunedau amrywiol rydyn ni’n eu gwasanaethu yn bwysig iawn i ni. Mae gan bob tân yr awn allan ato gost i bobl, lleoedd a'n hamgylchedd, felly mae atal, lle bynnag y bo modd, yn flaenoriaeth i ni. Rydyn ni am barhau i weithio gyda'n partneriaid i nodi cyfleoedd i gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt sydd o fudd i bawb, gan ein bod yn gwybod bod gweithio'n agos gyda'n partneriaid nid yn unig yn helpu i osgoi dyblygu gwasanaethau, mae hefyd yn well defnydd o arian cyhoeddus ac yn darparu manteision niferus i'n cymunedau.

**Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:**

- Cynnal adolygiad cadarn o'n mentrau diogelwch cymunedol presennol i benderfynu a ydynt yn mynd i'r afael ag anghenion y cymunedau rydyn ni’n eu gwasanaethu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Ystyried effaith a buddion ein mentrau yn y gymuned a’n trefniadau gweithio mewn partneriaeth.
- Gwerthuso a mesur canlyniadau partneriaethau, ymrwymiadau a threfniadau cydweithio i sicrhau eu bod nid yn unig yn cyflawni gwelliannau i'n Gwasanaeth ond hefyd i'n cymunedau.
- Defnyddio ein dyletswyddau fel partner statudol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i chwarae ein rhan i gyflawni manteision eang i'n cymunedau.
- Parhau i hyrwyddo ac annog y defnydd o'n Gorsafoedd Tân ac asedau eraill er budd ein cymunedau.

**Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein Hamcan Gwella a Llesiant:**

Cynhaliodd yr adran Diogelwch Tân Busnes (BFS) weithgareddau ymgysylltu rheolaidd â rhanddeiliaid sydd â dyletswyddau o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân. Er bod hwn yn faes ffocws parhaus ar gyfer yr adran Diogelwch Tân Busnes, roedd cyflwyno'r Ddeddf Diogelwch Tân ac elfennau o'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau yn gosod dyletswyddau newydd ar bobl gyfrifol rhai mangreoedd. O'r herwydd fe wnaeth yr adran deilwra ei hymdrechion ymgysylltu i adlewyrchu'r dyletswyddau newydd hyn. Un digwyddiad a ddatblygwyd i gefnogi'r rhaglen ymgysylltu â busnes oedd 'Cysylltu ar gyfer.....'. Nod y digwyddiad oedd sefydlu a chynnal rhwydweithiau proffesiynol o fewn y rhanbarth cyflawni a fyddai wedyn yn cefnogi gallu'r adran i wella darpariaeth gwasanaethau, lleihau risg, cefnogi iechyd a llesiant a deall blaenoriaethau rheoleiddio. Daeth 33 o bobl i'r digwyddiad, gan gynrychioli ystod eang o sefydliadau a oedd naill ai'n gyfrifol am ddiogelwch y cyhoedd neu'n gweithio gydag aelodau mwyaf bregus y cymunedau rydyn ni’n eu gwasanaethu. Enillodd y digwyddiad ymgysylltu hefyd wobr Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC) am 'Weithio mewn Partneriaeth'.

Parhaodd yr adran i gymryd rhan weithredol yn natblygiad Tîm Arolygu ar y Cyd Cenedlaethol, sy'n canolbwyntio ar y trefniadau diogelwch tân mewn adeiladau preswyl uchel iawn. Bydd y tîm amlddisgyblaethol hwn yn ategu gwaith rheoleiddio presennol y Gwasanaethau Tân ac Achub ac Awdurdodau Lleol.

Gwnaed gwaith paratoi ar gyfer newid posibl i'r ffordd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb i signalau Larwm Tân Awtomatig, fel rhan o'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP); y nod yw lleihau nifer y Galwadau Tân Diangen y mae'r Gwasanaeth yn mynd allan atynt. Roedd peth o’r gwaith paratoi yn cynnwys ymgysylltu sylweddol â safleoedd y gwyddys bod ganddynt systemau larwm tân awtomatig sy'n gysylltiedig â chanolfannau derbyn larymau.

Parhaodd cyfarfodydd Adolygu Tân Sylweddol (SFR) i gael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Mae'r broses yn dal pob agwedd ar atal ac amddiffyn, yn y cyfnod cyn tân ac yn dilyn tân, ynghyd â gwersi a ddysgwyd i weld sut y gall y Gwasanaeth gyflawni ei waith atal ac amddiffyn yn well. Mae'r broses hefyd yn ychwanegu gwaith craffu gwerthfawr at y broses Ymchwilio i Dân. Caiff y canfyddiadau eu bwydo wedyn i Grŵp Dysgu Gweithredol y Gwasanaeth (OLG).

Parhawyd i archwilio’r holl ddata a gesglir o fewn system rheoli data CFRMIS y Gwasanaeth i nodi patrymau a thueddiadau ac i nodi pa bartneriaid yr oedd angen i'r Gwasanaeth gydweithio â nhw. Yna rhennir yr wybodaeth a gasglwyd yn fewnol ac yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP) a fynychir gan yr adran.

Ar y cyd â Rhanbarth y De, y tîm Diogelwch Cymunedol a nifer o asiantaethau partner, gan gynnwys Heddlu De Cymru, Cyngor Abertawe, gwasanaethau cymdeithasol a Chynghorwyr lleol, Rebecca Fogerty a Sara Keeton, cynhaliodd y Tîm Lleihau Tanau Bwriadol (ART) nifer o ddigwyddiadau ar draws ardal West Cross yn Abertawe, gan gynnig cyngor a chymorth i aelodau'r gymuned. Cafodd y digwyddiadau eu cynnal mewn ymateb i'r farwolaeth drasig mewn tân yn Gonhill, West Cross, Abertawe ym mis Gorffennaf. Roedd y digwyddiadau gydol Awst yn cynnwys mentrau o ddrws i ddrws, mynychu digwyddiadau cymunedol a diwrnodau hwyl a gynlluniwyd ymlaen llaw, gan gynnwys diwrnod ymgysylltu cymunedol amlasiantaeth yng Nghanolfan Gymunedol Linden Tree.

Parhaodd yr adran Diogelwch Cymunedol i roi cymorth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u his-grwpiau cysylltiedig, megis y gweithgor trechu tlodi yn Sir Benfro a'r is-grŵp taclo caledi yng Ngheredigion. Bu'r adran hefyd yn cynorthwyo BGC Abertawe i ddod yn Ddinas Hawliau Dynol gyntaf Cymru.

Cwblhawyd adolygiad cadarn o'r adran Diogelwch Cymunedol. Nodwyd rolau newydd yn yr adolygiad, ac aethpwyd ymlaen i hysbysebu a phenodi. Bydd yr adolygiad yn sicrhau bod gwasanaeth atal mwy cyfartal a chyfrifol yn cael ei ddarparu i gymunedau.

Mewn ymgynghoriad â’r tîm ystadegol, datblygwyd map risg o ganolbarth a gorllewin Cymru. Wrth ddefnyddio data Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA), wedi'i fapio ar draws data digwyddiadau hanesyddol a barn broffesiynol, roedd yr adran Diogelwch Cymunedol yn gallu nodi'r unigolion hynny sy'n byw mewn cymunedau sydd fwyaf mewn perygl, yn y categorïau canlynol: byw ar eu pennau eu hunain, yr henoed, celcio a defnyddwyr cyffuriau ac alcohol.

Cynhaliwyd nifer o seremonïau gwobrwyo Cadetiaid Tân gan ddathlu eu gorchestion arbennig. Mynychwyd y seremonïau gan rieni, teuluoedd, cynrychiolwyr o ysgolion

lleol a chynghorwyr. Cafwyd arddangosiadau yn ystod y digwyddiad, gan arddangos y sgiliau a'r wybodaeth a ddysgwyd. Dychwelodd pedwar Cadét Tân o Dreforys hefyd i fod yn Gadetiaid graddedig, gydag un yn dod yn hyfforddwr gwirfoddol a daeth dau Gadét o garfan flaenorol yn Ddiffoddwyr Tân Ar Alwad.

Dyfarnwyd fframwaith gwaith coed ac adeiladu, gyda 12 o gyflenwyr yn llwyddo i gyflawni'r trothwy ansawdd er mwyn gallu eu rhoi ar y fframwaith. Roedd y rhan fwyaf o'r cyflenwyr llwyddiannus yn Fentrau Bach a Chanolig (BBaChau) o fewn ardal y Gwasanaeth. Cafodd y cyflenwyr hynny a fethodd â chyflawni'r trothwy ansawdd cyffredinol o 60%, gynnig cyfarfodydd adborth un i un gyda'r Pennaeth Caffael a Chontractio i fynd trwy eu cyflwyniadau'n fanwl, gan dderbyn cyngor ac arweiniad i helpu i wella unrhyw geisiadau yn y dyfodol.

Arweiniodd yr adran Caffael a Chontractio ar y gwaith o ddatblygu fframwaith ar gyfer arwyddion mewnol ac allanol. Daeth y cyfle i gydweithio yn dilyn presenoldeb yng nghyfarfod Fforwm Caffael Ceredigion. Roedd tendrau cydweithredol eraill yn cynnwys contract cynnal a chadw boeleri gyda Heddlu Dyfed Powys ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST), a chontract drws bae peiriannau hefyd gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Cynhwyswyd buddion llesiant fel gofyniad safonol yn yr holl ddogfennaeth dendro ac fe'u hymgorfforwyd yn y broses rheoli contractau i sicrhau bod cynnydd yn cael ei fesur drwy gydol tymor y contract, gan ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Arweiniodd yr adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes (CCBD) y strategaeth gyfathrebu ar gyfer Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru, gan wella diogelwch a llesiant y cymunedau rydyn ni’n eu gwasanaethu'n sylweddol, yn ogystal ag effeithiau economaidd ac amgylcheddol hirdymor tanau gwyllt yng Nghymru.

**Amcan Gwella a Llesiant Tri -** Byddwn yn gweithio at ddod yn Sero Net erbyn 2030.

**Pam ddewison ni’r Amcan Gwella a Llesiant hwn.**

Fel sefydliad mawr, rydyn ni’n cydnabod y gallwn gael effaith sylweddol ar yr economi a'r amgylchedd ac rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gwneud ein dyletswydd foesol ac yn gwneud y mwyaf o'r buddion hyn i'r cymunedau rydyn ni’n eu gwasanaethu, gan wella ein cyfraniad at yr economi leol a lleihau costau i gymdeithas.

Bydd dod yn fwy ymwybodol o'r effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol a gawn ar ein hamgylchedd yn ein helpu i leihau ein hôl troed carbon. P'un ai newid y ffordd rydyn ni’n cyflawni ein gweithgareddau gweithredol, ymgymryd â mentrau arbed ynni neu weithio gyda chyflenwyr sydd â niwtraliaeth carbon yn eu hethos, bydd yn rhaid i ni chwarae ein rhan i amddiffyn ein planed a diogelu cenedlaethau'r dyfodol.

Rydyn ni am weithio gyda'n cymunedau i ddeall eu hanghenion amgylcheddol i gael y lefel gywir o effaith a sicrhau'r canlyniad gorau i bawb. Bydd annog a gwella'r amgylchedd naturiol, bioamrywiaeth a chynefinoedd ar ein hystâd yn hyrwyddo ecosystem iach, yn gwella ansawdd aer lleol yn ogystal â helpu i wella iechyd a lles meddyliol ein gweithwyr.

**Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:**

- Cyflwyno adnodd Asesu Effaith Amgylcheddol.
- Parhau i weithio gydag asiantaethau partner i archwilio cyfleoedd i fesur faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio mewn digwyddiadau gweithredol.
- Ymgysylltu gyda'n pobl i gasglu adborth ar sut mae ein nodau lleihau carbon yn gweithio.
- Parhau i archwilio ffyrdd y gallwn gaffael nwyddau a gwasanaethau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.
- Cytuno ar set ddata sylfaenol well a nodi mentrau lleihau carbon penodol i gyflawni ein gweledigaeth sero net.
- Addysgu ein pobl, i gefnogi eu dealltwriaeth o niwtraliaeth carbon ymhellach a sut y gallant ein helpu i'w gyflawni.

**Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein Hamcan Gwella a Llesiant.**

Ar ôl derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru (LlC), cynhaliwyd treial yn defnyddio Olew Llysiau Hydrogenedig (HVO). Cafodd yr arian ei ddefnyddio i brynu tri thanc tanwydd, a gafodd eu gosod yng Ngorsafoedd Tân Treforys, Gorseinon a Chaerfyrddin. Dangosodd canlyniadau'r treial y gellir defnyddio tanwydd HVO yn ddiogel mewn peiriannau tân a wnaed o 2018 ymlaen, heb unrhyw effeithiau niweidiol.

Mae'r defnydd o HVO yn rhoi opsiwn trosiannol rhagorol i'r Gwasanaeth leihau ei ôl troed carbon yn sylweddol, tra bod technoleg peiriannau tân ULEV yn parhau i aeddfedu a dod yn fwy fforddiadwy a gwydn. Trafodwyd y defnydd o HVO hefyd gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) a gytunodd ei fod yn gyfle gwych i'r sector gwasanaethau brys arwain newid a dangos sut y gall cyrff y sector cyhoeddus weithredu'n wahanol i leihau eu hallbwn carbon.

Sicrhawyd cyllid grant ar gyfer y swm o £144,000 gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda phrynu 8 fan drydan i gymryd lle faniau tanwydd ffosil. Derbyniwyd grant ychwanegol o £43k gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru hefyd ar gyfer cyflenwi 16 pwynt gwefru ychwanegol, sef 8 o unedau gwefru EV dwbl.

Datblygwyd rhyngwynebau system meddalwedd gyda chyflenwyr allweddol, i wella'r broses o adrodd ar fentrau allyriadau carbon, gan arwain at roi gwell gwybodaeth i'r grŵp cynaliadwyedd a'r amgylchedd a chynorthwyo'r Gwasanaeth i dargedu ei weithgareddau lleihau carbon.

Ar y cyd â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, datblygwyd cynnig ar gyfer gosod paneli solar ar doeon ym Mhencadlys y Gwasanaeth, Canolfan Hyfforddi Earlswood a Gorsafoedd Tân Hwlffordd, Llandrindod a'r Drenewydd. Aseswyd pob safle o ran y gallu i gynhyrchu ynni PV solar, a nodwyd mai hwy oedd yr ateb mwyaf economaidd a hyfyw, er mwyn sicrhau'r arbedion carbon gorau.

Cwblhaodd Ricardo, contractwr allanol, fap ffordd datgarboneiddio gyda chefnogaeth aelodau staff allweddol, gan gynnwys y Rheolwr Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd, Pennaeth Ystadau, Pennaeth Fflyd, Peirianneg a Logisteg a'r Pennaeth Caffael a Chontractio. Defnyddiwyd y map ffordd i ddatblygu Cynllun Rheoli Allyriadau Carbon, gan fanylu ar nodau penodol ar gyfer y Gwasanaeth wrth symud ymlaen.

Yn dilyn archwiliad blynyddol, allanol gan System Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd ym mis Chwefror 2024, llwyddodd y Gwasanaeth i gyflawni Lefel 5, y dyfarniad Draig Werdd uchaf. Defnyddir y safon hon fel offeryn asesu yn erbyn ystod o feini prawf amgylcheddol a monitro er mwyn i'r Gwasanaeth a'i brosesau allu sicrhau gwelliannau amgylcheddol yn barhaus.

Wrth ddrafftio Cynllun Rheoli Allyriadau Carbon y Gwasanaeth ar gyfer 2024/2030, defnyddiwyd pecyn cymorth Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, fel canllaw i gynnal dadansoddiad o'r bylchau ar feysydd lle gellid gwneud gwelliannau i brosesau amgylcheddol. Mae'r pecyn cymorth hefyd yn fodd i rannu ymchwil, data, gwybodaeth, arfer da ac astudiaethau achos ar draws y Sector Tân ac Achub a bydd yn helpu i greu dull mwy gwybodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer mentrau yn y dyfodol.

Parhaodd yr adran Risg Gorfforaethol i gyfathrebu ac ymgysylltu â staff, megis y pecyn hyfforddi e-ddysgu ymwybyddiaeth amgylcheddol i staff, sy'n ymdrin â phob agwedd ar ymwybyddiaeth amgylcheddol, gan gynnwys defnydd o ynni, gwastraff, defnydd o ddŵr a bioamrywiaeth.

Lansiwyd arolwg teithio staff, EVOTIX gan archwilio ymddygiadau staff ynghylch cymudo, defnydd gwael o geir a defnydd busnes. Cafodd yr ymatebion a dderbyniwyd eu gwerthuso a'u trafod gan y Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd.

Sefydlwyd Grŵp Amgylcheddol gyda Rheolwyr Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd o dri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru i sicrhau dealltwriaeth o wahanol brosiectau, perfformiad a threfniadau gweithio ledled Cymru.

Bu'r Gwasanaeth a Grwpiau Partneriaeth Natur Lleol Abertawe a Sir Gaerfyrddin yn gweithio i ddatblygu gwybodaeth am fioamrywiaeth. Ychwanegwyd hyn at y Terfynellau Data Symudol, gan dynnu sylw at ardaloedd o rywogaethau pwysig neu rywogaethau mewn perygl er mwyn helpu i wneud penderfyniadau yn ystod digwyddiadau.

Cafwyd arian gan Cadwch Gymru'n Daclus a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar gyfer gerddi blodau gwyllt. Darparodd yr arian 25 o goed ffrwythau, 15 o blanhigion dringo, 45 o blanhigion lafant, 1000 o fylbiau Cymreig, 500 o blanhigion gwrych brodorol, 100m2 o dyweirch blodau gwyllt brodorol a thua 700 o blanhigion plwg blodau gwyllt

ar gyfer Gorsafoedd Tân Pontarddulais, Port Talbot, Hwlffordd, Glyn-nedd a Blaendulais.

Cynhaliwyd ymweliad â safle pencadlys Lyreco yn Telford i drafod sawl menter yn ymwneud â chynllun Gwyrdd Glân Cymru a mesur defnydd cyfleustodau a bioamrywiaeth. Cyn y newid mewn deddfwriaeth gwastraff, darparodd Lyreco archwiliad gwastraff am ddim ar draws ardal y Gwasanaeth hefyd.

**Amcan Gwella a Llesiant Pedwar** – Byddwn yn gwreiddio cyfleoedd i grisialu, cyfathrebu a gweithredu pob agwedd ar ddysgu sefydliadol, gan feithrin diwylliant o welliant parhaus.

**Pam ddewison ni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn.**

Mae dysgu sefydliadol yn allweddol i'r hyn a wnawn fel Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'n ein helpu i lunio ein harferion a'n gweithdrefnau i'r dyfodol, gweithredu ffyrdd mwy diogel o weithio i'n pobl a lleihau'r risg i'n cymunedau.

Bydd ymgorffori cyfleoedd i grisialu, cyfathrebu a gweithredu pob agwedd ar ddysgu sefydliadol yn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i weithio'n effeithlon ac yn effeithiol wrth weithredu ffyrdd mwy diogel o weithio i'n pobl.

**Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:**

- Parhau i ddatblygu ac ymgorffori mecanwaith i grisialu a chofnodi'r holl ddysgu anweithredol ar draws y Gwasanaeth.
- Archwilio'r ffyrdd y mae dysgu sefydliadol a sicrwydd busnes yn cael ei gyfleu ar draws y Gwasanaeth.
- Sicrhau bod yr holl ddysgu a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu crisialu a'u bwydo i drefniadau cynllunio a phrosiectau corfforaethol yn y dyfodol.
- Ymgorffori a chyfleu dysgu allanol a hyrwyddo'r manteision ehangach trwy'r Gwasanaeth.
- Nodi mecanwaith i grisialu a chasglu gwybodaeth am y profiadau dysgu cadarnhaol a negyddol o'n gweithgareddau.

**Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein Hamcan Gwella a Llesiant:**

Cafodd y System Dysgu Gweithredol (OLS) ei gwreiddio'n llawn yn y Gwasanaeth, gan ganiatáu i'r gweithlu roi adborth ar welliannau posibl a nodi dysgu o bresenoldeb mewn digwyddiadau gweithredol a digwyddiadau hyfforddi. Gwnaed datblygiadau ychwanegol hefyd i'r system sy'n cofnodi dysgu o bresenoldeb mewn digwyddiadau meddygol. Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd y digwyddiadau dysgu canlynol eu crisialu a'u hadolygu yn y Grŵp Dysgu Gweithredol (OLG).

- 417 o gofnodion dysgu gweithredol;
- 116 o ddigwyddiadau arfer gorau;
- 52 o ddigwyddiadau dysgu wedi'u nodi;
- 7 digwyddiad dysgu cenedlaethol;

- 52 o ddigwyddiadau dysgu gweithredol ar y cyd;
- 6 o sesiynau ôl-drafodaeth strwythuredig;
- 90 o gofnodion (meddygol) gan orsafoedd

Mae'r Grŵp Dysgu Gweithredol yn asesu'r digwyddiadau dysgu a gasglwyd yn erbyn arferion gorau'r diwydiant a chanllawiau cenedlaethol, i bennu llwybr addas i ddatblygu'r dysgu, yn fewnol ac yn allanol. Arweiniodd yr wybodaeth a gasglwyd o'r digwyddiadau dysgu at welliannau i'r Gwasanaeth, yn weithdrefnol ac arweiniodd hefyd at wneud newidiadau a gwelliannau i'r offer sy'n cael ei ddefnyddio gan staff gweithredol. Dosbarthwyd tri chylchlythyr dysgu gweithredol ar draws y Gwasanaeth hefyd, gan dynnu sylw at y dysgu a'r arferion cadarnhaol a gafwyd o ddysgu gweithredol a sefydliadol.

Yn dilyn argymhellion ar y System Dysgu Gweithredol gan orsafoedd, cynhaliwyd treial yn Rhanbarth y Gorllewin, monitorau tir osgiliadol i'w defnyddio mewn tanau sbwriel. Parhaodd y Gwasanaeth i archwilio technoleg cerbydau trydan a batri lithiwm-ion, gan nodi'r offer a'r hyfforddiant mwyaf priodol i gynorthwyo gyda digwyddiadau gweithredol.

Bu'r gweithgor cerbydau trydan mewn cysylltiad â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill y DU ac asiantaethau partner, gan gydweithio a rhannu gwybodaeth. Nodwyd darparwyr hyfforddiant i uwchsgilio hyfforddwyr Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd y Gwasanaeth ar y risgiau a berir gan gerbydau trydan a diweddarwyd y ddarpariaeth hyfforddi i gynnwys y newidiadau mewn technoleg.

Sefydlwyd Grŵp Dysgu Sefydliadol Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC), i gefnogi Gwasanaethau drwy gasglu, dadansoddi ac olrhain dysgu ar draws pob maes o weithgarwch y Gwasanaethau Tân ac Achub. Cysylltodd yr adran Gweithdrefnau a Dysgu Gweithredol (OPAL) â Grŵp Dysgu Sefydliadol NFCC i sicrhau dull unffurf o grisialu ystod ehangach o ddysgu, trwy alinio systemau a gweithdrefnau. Yn dilyn yr ymgysylltiad, crëwyd system fewnol i gofnodi mewnbynnau ar y System Dysgu Gweithredol o bob rhan o'r Gwasanaeth.

Nodwyd arfer da yn sgil mynychu digwyddiadau gweithredol trawsffiniol, a gafodd eu hymgorffori yng ngweithdrefnau'r Gwasanaeth a'u crisialu trwy gyflwyno ffurflenni trosglwyddo digwyddiadau gweithredol. Roedd hyn hefyd yn cynorthwyo i fodloni gofynion y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol, trwy roi gwybodaeth i’r cyhoedd, asiantaethau partner a busnesau am beryglon posibl yn ystod cyfnod trosglwyddo digwyddiad gweithredol.

Cwblhawyd y broses ddilyniant ar gyfer rolau Rheolwr Criw, Rheolwr Gwylfa a Rheolwr Gorsaf, gyda'r holl ymgeiswyr yn derbyn Cynllun Datblygu Personol i'w lenwi. Estynnwyd gwahoddiad iddynt fynychu sesiynau ôl-drafodaeth/dysgu gweithredol i drafod y broses. Rhoddwyd mentor i ymgeiswyr hefyd i'w cynorthwyo i ddeall y nodau sefydliadol ehangach, gan roi cyfle i bob ymgeisydd ddysgu am y lefel nesaf o arweinyddiaeth a rheolaeth. Cynhaliwyd seminarau Rheolwyr Goruchwylio a Rheolwr Canol hefyd gyda llawer yn eu mynychu. Roedd hyn yn darparu llwyfannau gwerthfawr i staff rwydweithio a rhannu syniadau.

Darparwyd cyrsiau'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) gan yr adran Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol (POD). Roedd y cyrsiau'n cynnwys modiwlau unigol ychwanegol a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer y Gwasanaeth, mewn meysydd fel, gwydnwch, deallusrwydd emosiynol a chael sgyrsiau anodd. Roedd y broses o gymeradwyo cyrsiau pwrpasol yn parhau i ddigwydd trwy gais unigol, ar gyfer graddau meistr Arweinyddiaeth a Rheolaeth, cymwysterau sector-benodol (Diogelwch Busnes, Adnoddau Dynol a Chyfrifeg). Cymeradwyir y broses ymgeisio trwy'r broses arfarnu, gan ddarparu awdurdod i reolwyr llinell unigol i hyrwyddo cyfleoedd dysgu allanol.

Er mwyn cynorthwyo gyda chasglu dysgu sefydliadol o safbwynt Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r adran Darparu Hyfforddiant, roedd yr holl gynrychiolwyr a fynychodd ddigwyddiadau a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth yn darparu adborth wedi'r cwrs ar gynnwys y cwrs a pha mor fuddiol oedd y digwyddiad dysgu i'w rôl. Roedd yr adborth a ddarparwyd yn golygu bod modd gwneud newidiadau, gan wella prosesau a chynnwys cyrsiau ar gyfer carfanau'r dyfodol.

Cynhaliwyd ymweliadau sicrwydd strategol gan yr adran Cyfarpar Gweithredol a Sicrwydd (OEA), gan nodi dysgu ac arfer da. Datblygwyd tudalen sicrwydd OEA ar fewnrwyd fewnol y Gwasanaeth fel dull cyfathrebu i ddarparu diweddariadau sicrwydd.

Gwnaed datblygiadau i'r gofrestr Cydymffurfiaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant a symleiddiwyd y broses arolygu sicrwydd strategol gan ddefnyddio'r system feddalwedd Iechyd a Diogelwch, Evotix Sure, a ddefnyddir fel offeryn ar-lein ar gyfer dysgu Iechyd a Diogelwch i'r holl staff.

Cefnogodd yr adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes (CCBD) adolygiad o'r trefniadau llywodraethu a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru, gan weithredu fel pwynt cyswllt i'r Gwasanaeth, delio â cheisiadau am wybodaeth a gwneud trefniadau ar gyfer cyfweliadau â Swyddogion dethol o'r Tîm Arwain Gweithredol ac Aelodau'r Awdurdod Tân.

Gan weithio'n agos gyda'r Tîm Arwain Gweithredol, bu'r adran CCBD yn cefnogi ac yn hyrwyddo canlyniadau'r Archwiliad Diwylliannol, ac yn dilyn newidiadau deddfwriaethol i'r ffordd y mae'r Gwasanaeth yn cynnal gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), datblygwyd strategaeth gyfathrebu yn hyrwyddo'r newidiadau a'r gwelliannau i agenda diogelu'r Gwasanaeth.

**Amcan Gwella a Llesiant Pump –** Byddwn yn parhau i gynnal ymarfer data sylfaenol i gefnogi aliniad strategaethau cynllunio ac ariannol a llywio datblygiad gwelliannau, amcanion a mentrau sy'n canolbwyntio ar reoli risg cymunedol.

**Pam ddewison ni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn.**

Diogelu ein cymunedau yw un o'n prif flaenoriaethau erioed, a bydd felly bob amser; trwy chwarae rhan weithredol wrth ddylanwadu ar ganlyniadau unrhyw adolygiadau, rydyn ni'n sicrhau ein bod ar flaen y gad o ran unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i barhau i gadw cymunedau'n ddiogel. Mae sicrhau bod yr holl weithgareddau atal, amddiffyn ac ymateb yn cael eu cyfarwyddo i ddarparu'r enillion mwyaf posibl ar fuddsoddiad a lleihau effaith gyffredinol y risgiau rhagweladwy sy'n ein hwynebu yn hynod bwysig. Fel Gwasanaeth Tân ac Achub, rydyn ni'n arloesol, yn uchelgeisiol ac yn awyddus i wneud y mwyaf o'n potensial a'r effaith y gallwn ei chael ar ddiogelwch y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru ac ar draws y DU, yn parhau i fynd trwy gyfnod o newid oherwydd adolygiadau eang ar nifer o reoliadau, deddfwriaeth a dyletswyddau statudol. Felly, mae'n bwysig bod yn rhagweithiol nid yn unig i ddylanwadu ar ganlyniadau unrhyw adolygiadau ond i'w hymgorffori yn y fath fodd fel eu bod yn gwella ein trefniadau atal, amddiffyn ac ymateb ac yn ei dro iechyd, diogelwch a lles tymor hwy'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

**Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:**

- Paratoi ar gyfer y newidiadau i'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub (Cymru) a gwneud y newidiadau angenrheidiol i'n prosesau cynllunio.
- Parhau i adolygu'r data sydd gennym ni, penderfynu ar ei ddilysrwydd, a'i adnewyddu lle bo angen.
- Parhau i weithio gyda'n partneriaid i ddeall pa ddata maen nhw'n ei gasglu a phenderfynu ar ei effeithiolrwydd at ein defnydd ein hunain.
- Parhau i ymgymryd â dadansoddiad cadarn o unrhyw ddata rydyn ni'n ei gasglu a'i gadw i ddeall yn well y risgiau presennol a'r risgiau yn y dyfodol yn ein cymunedau.
- Cynnal deialog gyda'n staff gweithredol a'r undebau sy'n eu cynrychioli i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth leol a'u barn broffesiynol mewn unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol.
- Defnyddio'r wybodaeth a gasglwn o'r ymarfer hwn i ddeall ble i osod ein pobl a'n hadnoddau.
- Adolygu ein cydymffurfiaeth yn erbyn y ddeddfwriaeth bresennol, gan sicrhau ein bod yn parhau i gadw at eu gofynion.
- Gweithredu gofynion unrhyw ddeddfwriaeth newydd a osodir arnom.

**Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein Hamcan Gwella a Llesiant:**

Roedd y defnydd o ddata wedi'i ddilysu yn parhau i gefnogi'r allbynnau o ffrydiau gwaith y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP). Defnyddiwyd y data hefyd i gefnogi gwaith rhagweithiol y Gwasanaeth, a oedd yn cyd-fynd â'r gwaith o gynllunio darparu gwasanaethau yn y tymor hwy.

Ymhlith yr adolygiadau a gynhaliwyd gan dîm CRMP roedd diffodd tân morol, asedau achub dŵr cyflym, achub â rhaff, darpariaeth ar gyfer tanau gwyllt, cerbydau POD a'r model criwio dydd. At hynny, cafodd y data a gedwir gan y Gwasanaeth ei adolygu'n drylwyr i fwydo cynllunio i'r dyfodol ac adolygiadau a sicrhau bod adnoddau'n cyfateb i risg.

Datblygwyd dogfen asesu strategol gan ddefnyddio gwybodaeth a data gan bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, gan roi dealltwriaeth ehangach i'r Gwasanaeth o'r risgiau a'r heriau sy'n cael eu hwynebu a'u helpu i lywio a dylanwadu ar gynllunio busnes ehangach.

Roedd y gwaith o ddatblygu Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 yn cynnwys staff o bob rhan o'r Gwasanaeth. Bydd y broses gynllunio tymor hwy yn sicrhau bod y ffocws yn parhau i fod ar gymunedau, drwy sicrhau bod canlyniadau hirdymor wrth wraidd dull y Gwasanaeth a chaniatáu ar gyfer gweithio gyda'r holl randdeiliaid mewnol ac allanol.

Cynhaliwyd proses ymgynghori gynhwysfawr 10 wythnos ar Gynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 rhwng Tachwedd 2023 ac Ionawr 2024, gydag adborth cadarnhaol yn cael ei dderbyn ar weledigaeth tymor hwy newydd y Gwasanaeth, er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru. Cafodd yr ymatebion eu hystyried yn llawn, a chafodd pob Amcan Gwella a Llesiant ei adolygu a'i ddiwygio yn unol â hynny i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd.

Cyflwynwyd a chymeradwywyd canlyniadau'r ymgynghoriad a'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol diwygiedig, gan yr Awdurdod Tân ar 25 Mawrth 2024. Mae’r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 diwygiedig yn cwmpasu meysydd ymateb, atal ac amddiffyn, ac yn sicrhau bod yr holl swyddogaethau galluogi o fewn y Gwasanaeth yn helpu i gyflawni gweledigaeth y Gwasanaeth.

Gan gydnabod anghenion newidiol ein cymunedau, bydd ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn parhau i fod yn hyblyg, gan ganiatáu i’r Gwasanaeth barhau i addasu i newidiadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Bydd yn diogelu’r gwasanaethau a ddarparwn at y dyfodol, trwy gael y bobl iawn yn y lle iawn, ar yr adeg gywir, gyda’r sgiliau a’r offer cywir i leihau’r risgiau a wynebir o fewn y cymunedau y maen nhw’n eu gwasanaethu.

**Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.**
**Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.**
Please consider the environment before printing.
Don’t print if it’s not necessary.

**Darganfyddwch fwy.**
Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth fanylach am feysydd yr adroddwyd amdanynt yn y ddogfen hon.
Yn Adran Perfformiad ein gwefan, fe welwch wybodaeth am: -

- Gynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040.
- Cynlluniau Corfforaethol.
- Cynllun Strategol.
- Cynlluniau Gwella Busnes Blynyddol.
- Asesiadau Perfformiad Blynyddol.
- Adroddiadau Ymgynghori.
- Adroddiadau Archwilio Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.
- Adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Cymru.
- Siarter Ymateb i Danau Annedd Cymru Gyfan.

Rydyn ni'n croesawu eich sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau cynllunio yn y dyfodol. I roi eich adborth, gallwch gysylltu â ni drwy ein gwefan **www.mawwfire.gov.uk**, ein ffonio ni ar 0370 6060699 neu ysgrifennu atom ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Lôn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP. Fel arall, gallwch anfon e-bost atom yn mail@mawwfire.gov.uk.

**Fersiynau Amgen**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ffurfiau hygyrch. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall neu ar ffurf sain, cysylltwch â ni ar 0370 6060699 neu e-bostiwch: mail@mawwfire.gov.uk.

**Gofyn am Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref**
Gallwch ofyn am archwiliad diogelwch tân yn y cartref i chi'ch hun, perthynas neu gymydog dibynnol, drwy gysylltu â'r Gwasanaeth ar 0800 169 1234 neu drwy droi at **www.mawwfire.gov.uk.**

**Dilynwch ni ar:**
Facebook: facebook.com/mawwfire
X Twitter (gynt): @mawwfire
Instagram: mawwfire_rescue

**Atodiad 1:**

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Datganiad Cynnydd.**
Rydyn ni'n deall diben a nod y Ddeddf ac rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn ystyried effaith hirdymor ein penderfyniadau ar y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae ein Cynllun Strategol 2022-2027 yn amlinellu ein Hymrwymiadau pum mlynedd a fydd yn ein helpu i gyflawni'r saith nod Llesiant mewn sawl ffordd, ac ar ben hynny, rydyn ni wedi sicrhau bod y camau gweithredu ar gyfer ein Hamcanion Gwella a Llesiant wedi'u datblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi ymgorffori'r pum ffordd o weithio. Datblygwyd ein Hymrwymiadau a'n Hamcanion Gwella a Llesiant hefyd drwy gyfres o weithdai gyda'n staff, Aelodau Etholedig a Chyrff Cynrychioliadol.

Drwy gydol ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023/2024, amlygwyd sut y cyfrannodd ein Hamcanion Gwella a Llesiant at y saith Nod Llesiant, gan ddangos sut mae pob un yn ein helpu i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Byddwn felly'n sicrhau, wrth wneud penderfyniadau, ein bod yn ystyried yr effaith y gallai'r penderfyniadau ei chael ar y bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol. Gwnaethom hefyd roi ystyriaeth briodol i amrywiaeth gyfoethog y bobl yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ac rydyn ni'n parhau i gydweithio ag eraill i helpu'r Awdurdod i gyflawni ei Nodau Strategol a'i Amcanion Gwella a Llesiant, ac i'r gwrthwyneb, i helpu eraill i gyflawni eu rhai hwy.

Amlinellodd ein Cynllun Strategol hefyd sut y buom yn ystyried Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a Nodau Llesiant:

**Hirdymor**
Gwnaethom barhau i edrych ar dueddiadau tymor hir a gwnaethom gynnal dadansoddiad o'n gweithredoedd i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn yn rhagweithiol yn hytrach nag ymatebol, gan felly fodloni anghenion ein cymunedau a'n rhanddeiliaid yn well trwy wneud ein cymunedau mor ddiogel â phosibl, a pheidio â pheryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Rydyn ni wedi ymgorffori meddwl hirdymor yn ein harferion busnes, a byddwn yn parhau i fabwysiadu dull sganio'r gorwel fel rhan o'n prosesau cynllunio.

Wrth bennu ein Nodau Strategol (2022-2027) a'n Hamcanion Gwella a Llesiant (2023/2024), gwnaethom sicrhau ein bod yn parhau i weld a monitro tueddiadau yn y dyfodol a heriau hirdymor sy'n cael effaith andwyol ar y gwasanaethau a ddarparwn. Parhawyd i addasu ac arallgyfeirio ein gweithgareddau i ddiwallu anghenion ein cymunedau yn well, yn ogystal â gwella'r ffordd rydyn ni'n diwallu anghenion y bobl sy'n gweithio ac yn byw yn ein cymunedau ac yn ymweld â nhw i'w gwneud yn fwy diogel.

**Atal**
Roedd atal, amddiffyn ac ymyrraeth gynnar yn flaenoriaeth i ni o hyd, ac roeddem wedi ymrwymo i wneud y cymunedau a wasanaethwn mor ddiogel â phosibl, trwy adolygu ac addasu ein gwasanaethau ymyrraeth yn barhaus. Daliwyd ati i gymryd ymagwedd ragweithiol, integredig a chydweithredol tuag at y gwasanaethau a ddarparwn, trwy weithio'n agos gyda sefydliadau partner newydd a rhai presennol i

gyflwyno negeseuon diogelwch wedi'u teilwra, gan sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf posibl yn ein cymunedau. Roedd ein ffocws ar gyfer atal yn canolbwyntio ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu trwy sicrhau bod ymyrraeth gynnar yn digwydd a bod ein cymunedau mor wybodus â phosibl.

**Integreiddio**

Mabwysiadwyd dull integredig wrth ddatblygu ein Hamcanion Gwella a Llesiant (2023/2024), gan ein bod yn credu bod gweithio mewn ffordd fwy integredig wedi ein galluogi i ddatrys problemau'n fwy effeithiol ac effeithlon. Trwy fabwysiadu dull ar y cyd i wneud y gorau posibl o gyfleoedd a chydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid, buom yn lleihau’r dyblygu ymdrech ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus a hefyd yn rhannu adnoddau, dysgu a gwybodaeth er budd ein cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol.

**Cydweithio**

Mae cydweithio â'n partneriaid yn holl bwysig i ni fel Gwasanaeth Tân ac Achub; rydyn ni’n cydweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru mewn nifer o ffyrdd ac rydyn ni wedi addasu dull "Cymru gyfan" mewn nifer o feysydd. Roedd y dull cydweithredol hwn hefyd yn nodi'r dulliau cyflenwi mwyaf cost-effeithiol ac effeithlon ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub ar nifer o faterion pwnc. Rydyn ni’n deall bod gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn sicrhau’r effaith fwyaf posibl o ran ein negeseuon diogelwch ar ein cymunedau ac yn cyflwyno negeseuon diogelwch ar y cyd. Felly, byddwn yn parhau i adeiladu ar berthnasoedd presennol ac yn chwilio am gyfleoedd newydd i ddatblygu partneriaethau newydd a phresennol er mwyn defnyddio’n hasedau yn y modd mwyaf effeithiol.

**Cyfranogiad**

Fe wnaethom ymgynghori'n eang â'n rhanddeiliaid, sefydliadau partner a'r cyhoedd. Gwnaethom ymgysylltu'n llawn â chymunedau lleol trwy ddigwyddiadau ac ymgynghoriadau, gan eu hannog i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a oedd yn annog deialog ddwyffordd a hefyd yn sicrhau eu bod yn cael dweud eu dweud ar sut rydyn ni’n cyflawni ein Hamcanion Gwella a Llesiant. Roedd annog cyfranogiad a rhan y cyhoedd yn y broses benderfynu yn bwysig dros ben i ni.

Roedd ein cyfraniad tuag at gyflawni **Cymru Lewyrchus** yn cynnwys darparu mwy o wybodaeth a chymorth gan bob un o'n cysylltiadau pan fyddwn yn ymweld â phobl yn ein cymunedau i gadw pobl yn fwy diogel yn eu cartrefi. Rydyn ni hefyd wedi cyfrannu at gyflawni **Cymru Lewyrchus** trwy reoli ein hasedau mewn ffyrdd gwell, mwy cost-effeithiol ac effeithlon; adeiladu ar berthnasoedd presennol a chwilio am gyfleoedd newydd i sicrhau’r buddion gorau i'r gymuned a gwella ein cyfraniad at yr economi leol a lleihau costau i gymdeithas.

Cyfrannwyd tuag at **Gymru Gydnerth** trwy ystyried technoleg ac arloesi newydd o fewn ein Gwasanaeth. Rydyn ni hefyd yn deall yn well ein heffaith ar yr amgylchedd er mwyn sicrhau gostyngiadau yn ein hôl troed carbon, gan barhau i gynnal safon uchel o ddarparu gwasanaethau.

Cyflawnwyd **Cymru iachach** drwy gynyddu cysylltedd a digideiddio, a gynorthwyodd y Gwasanaeth i ddarparu ein gwasanaethau brys a diogelwch cymunedol i'n cymunedau; gan sicrhau ein bod yn rhoi cyngor ac yn darparu ein rhaglenni ymyrraeth i gynorthwyo unigolion i wella eu ffordd o fyw.

Sicrhawyd ein cyfraniad tuag at **Gymru o Gymunedau Cydlynus** drwy wella ein hatebion digidol a datblygu technolegau gwybodaeth a chyfathrebu, drwy gyfrannu at ddilyniant cysylltedd a'n darpariaeth gwasanaethau i'r cyhoedd.

Er mwyn helpu i greu **Cymru Fwy Cyfartal**, blaenoriaethwyd ein hymyriadau at yr unigolion hynny oedd fwyaf agored i niwed er mwyn gwella eu hamgylchiadau a rhoi cyngor iddynt i'w galluogi i wella eu ffordd o fyw.

Ein cyfraniad at **Gymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** oedd parhau i annog a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg o fewn ein maes gwasanaeth. Lle bo'n bosibl, hyrwyddwyd mynediad at ein gwasanaethau trwy ddefnyddio'r Gymraeg, er mwyn sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn gallu cyfathrebu â ni yn eu dewis iaith. Fe wnaethom hefyd barhau i annog ein gweithwyr i siarad eu dewis iaith yn y gweithle a darparu cyfleoedd i weithwyr sy'n dymuno dysgu Cymraeg.

Rydyn ni wedi dylanwadu ar gyflawni **Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang** drwy barhau i wneud newidiadau sylweddol i leihau faint o bapur a ddefnyddir yn ein gweithgareddau drwy annog cyflwyno pob gohebiaeth a dogfennaeth yn electronig.

Fel y nodir yn y Ddeddf, rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol drwy fynd i'r afael ag anghenion llesiant penodol yr ardal. Rydyn ni wedi cofleidio'r egwyddor hon ac wedi parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ymgymryd â'n cyfrifoldebau fel partner statudol.

Rydyn ni wedi gweithredu wedyn yr ethos o sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol yn ein harferion busnes. Adlewyrchwyd arwyddocâd yr Amcanion a gynhwysir ym mhob un o chwe Chynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ein Hamcanion Gwella a Llesiant ein hunain, a sicrhaodd fod gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau gwell canlyniadau i'n cymunedau yn flaenoriaeth o hyd.

Rydyn ni wedi ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth ffurfio'r cynllun hwn, ond hefyd wedi ymgorffori nifer o ffyrdd newydd o weithio wrth redeg y sefydliad o ddydd i ddydd. Bu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddylanwad mawr ar Edau Aur y Gwasanaeth. O'n cynlluniau datblygu unigol a'n strategaethau adrannol, hyd at ein Cynllun Strategol 2022-2027, mae ethos y Ddeddf ar flaen ein meddyliau. Ni waeth ai ffurfio partneriaethau newydd oedd dan sylw, mabwysiadu dull o wylio'r gorwel yn rhan o'n prosesau cynllunio at y dyfodol, neu ymgorffori fframwaith prosiect Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth gyflawni ein prosiectau corfforaethol ein hunain, sicrhawyd bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu, heb gyfaddawdu ar genedlaethau'r dyfodol.

**Amcan Gwella a Llesiant Un - datganiad cynnydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**

Parhaodd y Gwasanaeth i groesawu'r egwyddor o ddatblygu cyflogeion newydd a phresennol trwy amrywiaeth o raglenni datblygu, gan sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd dysgu a datblygu gorau oll, â llawer ohonynt yn rhai y gellir eu trosglwyddo i weithleoedd eraill ac i'r cymunedau y mae ein staff yn byw ynddynt.

Mae gwell cyfathrebu mewnol a gwerthuso parhaus ar y cyrsiau wedi bod o gymorth i ganfod cyfleoedd ar gyfer datblygu ein pobl mewn modd mwy cyfannol, gan eu helpu i gyrraedd eu llawn botensial, waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau.

Mae parhau i gynnal bwlch sgiliau critigol isel ei risg yn sicrhau bod staff gweithredol nid yn unig yn cael hyfforddiant yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol a Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch ond eu bod hefyd yn gallu cyflawni eu rolau ymateb yn gymwys ac yn effeithlon. Mae hyn, yn ei dro, wedi caniatáu i bersonél ddarparu ymateb diogel ac effeithiol i'r cyhoedd ar adegau pan fo angen, a rhoi'r cyfle i ddinasyddion a chymunedau adfer yn fwy effeithiol.

**Amcan Gwella a Llesiant Dau - datganiad cynnydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**

Ni fu gallu'r Gwasanaeth i ymateb a darparu gwasanaethau atal a diogelu rheng-flaen effeithiol yn ein cymunedau erioed yn bwysicach, a dyna pam y bu inni barhau i ystyried risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg a rhoi atebion cynaliadwy ar waith gyda'n partneriaid ar gyfer llwyddiant yn y tymor hwy.

Mae darparu ystod o drefniadau atal a diogelu ar y cyd â'n partneriaid wedi helpu i greu cysylltiadau gwerthfawr yn y gymuned sy'n gynaliadwy ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl o ran cynyddu ymwybyddiaeth o'r risgiau o dân mewn cartrefi, busnesau ac yn yr amgylchedd cymunedol ehangach, gan greu cymuned sy'n fwy gwydn ac sy'n llai dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus.

**Amcan Gwella a Llesiant Tri - datganiad cynnydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**

Mae defnyddio gwell systemau monitro wedi galluogi'r Gwasanaeth i dynnu sylw at feysydd lle mae angen canolbwyntio ymyriadau er mwyn lleihau'r defnydd o ynni. Bydd lleihau ein defnydd cyffredinol ar draws y Gwasanaeth yn cyfrannu tuag at ein hamcanion amgylcheddol a thargedau cenedlaethol i leihau allyriadau carbon.

Lleihau a monitro'r defnydd gan ein cyfleustodau a'n fflyd, gan gyd-fynd â Strategaeth ac amcanion Amgylcheddol y Gwasanaeth drwy leihau a pharhau i ymchwilio i ynni adnewyddadwy amgen a phrosesau cynaliadwy.

Parhaodd y Gwasanaeth i weithio gyda phartneriaethau lleol i godi ymwybyddiaeth o weithgareddau gweithredol mewn ardaloedd a chanddynt werth uchel o ran bioamrywiaeth a chaniatáu ar gyfer y dulliau rheoli gorau sydd ar gael. Cynhaliwyd

prosiect cadwraeth dŵr hefyd, er mwyn lleihau'r galw ar yr adnodd naturiol hwn a'r effaith ar allyriadau carbon ehangach y Gwasanaeth a'r diwydiant dŵr.

**Amcan Gwella a Llesiant Pedwar - datganiad cynnydd Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.**

Drwy ddefnyddio'r Grŵp Dysgu Gweithredol (OLG), llwyddodd y Gwasanaeth i nodi tueddiadau, gan ein cynorthwyo i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch yr hyn y dylai ein gwaith ganolbwyntio arno, ymhle a sut. Fe alluogodd y Gwasanaeth hefyd i ymateb yn fwy priodol i anghenion ein cymunedau, gan leihau'r risg i'n diffoddwyr tân rheng flaen ar yr un pryd.

Daliwyd ati i archwilio cyfleoedd effeithiol ar gyfer ymchwil a datblygu, gan gynnwys defnyddio treialon ar draws ardal y Gwasanaeth, a sicrhau bod y nwyddau a’r gwasanaethau a oedd yn cael eu caffael yn addas i'r diben.

**Amcan Gwella a Llesiant Pump - datganiad cynnydd Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.**

Roedd nod Amcan Gwella a Llesiant Pump, sef cynnal ymarfer data sylfaenol, yn cefnogi ethos y Ddeddf, drwy ystyried ystod o ddylanwadau allanol a oedd yn cefnogi prosesau cynllunio'r Gwasanaeth, gan sicrhau ein bod yn ymateb yn effeithiol ac yn diogelu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Parhaodd y Gwasanaeth i fod yn ymrwymedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a pharhaodd i goleddu ei ddyletswyddau a'i rôl fel partner statudol ar y chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Dyma rai o'r meysydd allweddol y bu’r Gwasanaeth ynghlwm â hwy:

Ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, cynhaliwyd digwyddiad pentref diogelwch cymunedol fel rhan o Her Diffoddwyr Tân Cymru ddydd Sadwrn, 3 Mehefin yn Stryd Rhydychen, Abertawe, a bu’n gyfle i ymgysylltu ag aelodau’r cyhoedd ar amrywiaeth o bynciau. Daeth nifer dda o bobl i’r digwyddiad ac arweiniodd hyn at atgyfeirio tua 55 o geisiadau am ymweliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, ac ymgysylltu â thua 130 o deuluoedd.

Ar 17 Hydref, cynhaliodd y Gwasanaeth ddigwyddiad ‘*Cerdded yn ein Hesgidiau*’, a oedd yn ceisio ehangu’r ymwybyddiaeth o waith partneriaid a gwella rhwydweithiau, yn enwedig ymhlith y rhai sy’n ymgysylltu’n uniongyrchol â’n cymunedau. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar dri phrif faes, sef ymateb gweithredol; diogelwch cymunedol; a diogelu yn yr amgylchedd adeiledig. Daeth nifer dda o sefydliadau partner i’r digwyddiad ac roedd yn cynnwys cynrychiolaeth o drawstoriad da o ran swyddi, gan gynnwys, Ecolegwyr, Swyddogion Cadwraeth, Ymarferwyr Iechyd y Cyhoedd, Arweinwyr Timau Rheoli Adeiladau, Syrfëwyr Rheoli Risg a chydlynwyr Diogelwch Cymunedol.

Cynhaliwyd digwyddiad diogelu yn stadiwm Swansea.com, yn ystod yr wythnos ddiogelu ym mis Tachwedd. Roedd y digwyddiad yn cynnwys prif siaradwyr a gweithdai rhyngweithiol a daeth ag ystod amrywiol o sefydliadau ynghyd i drafod ffyrdd o wella diogelu ar draws Abertawe, drwy rannu syniadau, hyrwyddo arferion gorau, a chanfod ffyrdd newydd o gydweithio i wneud y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu'n fwy diogel.

Daeth y Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyfarwyddwr Adnoddau yn Swyddog Arweiniol ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan, sy'n ceisio cynyddu'r cydweithio ar seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan mewn lleoliadau sector cyhoeddus, trwy ymchwilio, dadansoddi a pharatoi deunyddiau sy'n rhoi golwg fanwl ar y cyfleoedd a'r rhwystrau sydd ynghlwm â Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan.

Parhawyd i ddarparu cymorth i sawl un o is-grwpiau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys Gweithgor Tlodi BGC Sir Benfro, Grŵp Rhwydwaith Ymgysylltu a Mewnwelediad BGC Powys, Grŵp Llywio Dinas Hawliau Dynol BGC Abertawe, grŵp data rhanbarthol Bae Abertawe a Grŵp Llywio BGC Castell-nedd Port Talbot ymhlith eraill.

**Atodiad 2**

**Straeon newyddion da o'r gwaith a wnaed gan bob adran, rhwng 01 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.**

**<u>Diogelwch Tân Busnes</u>**

- Enwebwyd tîm Diogelwch Tân Busnes Rhanbarth y Gogledd ar gyfer Gwobrau Mwy na Dim ond Tanau a Gwobr Partneriaeth y Flwyddyn gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.
- Roedd trefniadau gosodiad sefydlog diogelwch tân awtomatig effeithiol mewn ysgol yn Sir Benfro yn gyfrifol am lethu tân a rhoi mwy o amser dianc i'r 195 o ddisgyblion a 30 aelod o staff. Digwyddodd hyn ychydig cyn y cyfnod cofrestru a llwyddodd yr ysgol i ddelio gyda'r digwyddiad yn effeithiol.





## Yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes (CCBD)




- Cynhaliodd y Gwasanaeth ei Seremoni Wobrwyo flynyddol Mwy na Dim ond Tanau yng Ngwesty a Sba'r Metropole yn Llandrindod ddydd Gwener, 10 Tachwedd. Cafodd y digwyddiad ei arwain gan y dyfarnwr sydd â'r nifer fwyaf o gapiau yn rygbi'r byd, Nigel Owens MBE a rhoddwyd diolch a chydnabyddiaeth i ymdrechion rhyfeddol, gwaith caled ac ymroddiad staff y Gwasanaeth a gwirfoddolwyr o bob rhan o ardal y Gwasanaeth.

## Diogelwch Tân Cymunedol

- Cynhaliwyd nifer o seremonïau gwobrwyo Cadetiaid Tân gan ddathlu eu gorchestion. Cynhaliwyd seremoni Abercraf ar 10 Gorffennaf gyda’r Cadetiaid yn derbyn eu Gwobr Efydd a thystysgrifau gan y Pennaeth Corfforaethol Hyfforddiant a Datblygiad Ymateb Brys. Cynhaliwyd seremoni Blaendulais ar 11 Gorffennaf, gyda'r Prif Swyddog Tân yn cyflwyno'r gwobrau, ac yn olaf, cynhaliwyd seremoni Treforys ar 17 Gorffennaf, gyda Phennaeth Corfforaethol Atal ac Amddiffyn yn cyflwyno'r gwobrau. Cafwyd adborth cadarnhaol gan rieni, a fynegodd eu diolch am yr effaith gadarnhaol ar eu plant.

- **Adborth cadarnhaol a dderbyniodd y Tîm Diogelwch Cymunedol -** *Roeddwn i eisiau eich gwneud chi'n ymwybodol o'r gwahaniaeth rydych chi wedi'i wneud i fenyw oedrannus sy'n byw ar ei phen ei hun mewn eiddo yng Nghil-y-cwm yn dilyn archwiliad a gwblhawyd gennych ym mis Awst 2022. Fe gawson ni alwad dân i'r cyfeiriad neithiwr - mae'r ddynes yn cael gwaith wedi'i wneud i'w system gwres canolog ac am ryw reswm, fe orboethodd y twymwr troch gan achosi i'r deunydd insiwleiddio chwalu a chynhyrchu llawer iawn o fwg chwerw yn yr eiddo. Yn sgil y larymau a osodwyd gennych a'r cyngor a ddarparwyd gennych, cafodd y meddiannydd rybudd cynnar iawn o'r tân, gan roi amser iddi ddianc i le diogel a'i galluogi i wneud galwad ffôn gynnar i ni. Fe wnaeth ymateb cyflym criwiau Llanymddyfri a Llanwrtyd liniaru effaith y tân oedd wedi'i gyfyngu i'r tanc dŵr poeth. Roedd yr alwad yn hwyr yn y nos, ac nid oedd y fenyw yn ymwybodol o'r sefyllfa nes i'w larymau ganu, felly yn yr achos hwn, does gen i ddim amheuaeth bod eich gwaith ataliol wedi gwneud gwahaniaeth mawr!*

- **Adborth cadarnhaol a dderbyniwyd yn dilyn ymweliad Diogelwch Tân yn y Cartref** - *A allech chi drosglwyddo fy niolch i’r gwasanaeth diogelwch tân am gynnal ymweliad cartref? Dydw i ddim yn siŵr a ydynt wedi'u lleoli yn Nhreforys neu Gorseinon, ond rwy'n byw yng Nghasllwchwr, Abertawe ac yn*

*ychwanegol at archwiliad diogelwch yn y cartref, fe gawsant rywun o'r gwasanaethau cymdeithasol i'm helpu i a fy rhieni. Rwyf wedi bod yn ofalwr di-dâl am y rhan fwyaf o'm bywyd. Mae ceisio cael cymorth ychwanegol bob amser wedi bod yn anodd oherwydd biwrocratiaeth yn bennaf ond hefyd gan fod eraill a ddylai wrando ar bobl sydd bob amser yn gofyn am help yn dod o hyd i reswm i beidio â helpu, er bod gwasanaethau fel gwasanaethau 999 eraill yn rhoi cais i mewn i'n helpu, mae'n mynd ar goll ac yn syrthio drwy'r rhwyd fel llawer o rai eraill. Oni bai am bobl sy'n gweithio ym maes diogelwch tân, wn i ddim lle byddwn i na fy nheulu, dim ond mewn llanast go iawn. Diolch unwaith eto.*

- **Llythyr a dderbyniwyd gan Gyfarwyddwr Trafnidiaeth a Chysylltedd Digidol yn Llywodraeth Cymru** - *Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i chi am y cyfraniad unigol ac ar y cyd rydych wedi'i wneud i wella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru. Bydd cyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig yn achub bywydau ac yn lleihau anafiadau. Rydyn ni bellach yn symud i gyfnod newydd o weithredu, monitro a gwerthuso. O ganlyniad, mae Ysgrifennydd y Cabinet a minnau yn rhoi trefniadau llywodraethu newydd ar waith. Felly, rydyn ni wedi penderfynu dod â gwaith y Grŵp Llywio 20mya a'r Bwrdd Cyflawni Partneriaeth i ben. Gwn y bydd rhai ohonoch yn parhau i gyfrannu at fonitro a gwerthuso'r polisi ac rwy'n ddiolchgar am eich cefnogaeth barhaus. Diolch unwaith eto am eich holl waith ar y diwygiad allweddol hwn.*

- ***Adborth a dderbyniwyd gan Weithiwr Ieuenctid yn dilyn ymweliad ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc*** - *Mae'r disgyblion ifanc i gyd wedi bod yn dweud wrth staff yr ysgol gymaint y gwnaethon nhw fwynhau'r 4 diwrnod, mae dau athro wedi dod lan ata' i yn barod ac wedi dweud sut mae un person ifanc wedi bod yn dweud wrthyn nhw am eu hwythnos mewn modd hynod o frwd. Dywedodd un rhiant hefyd faint o wahaniaeth mae hi wedi'i weld yn barod, a'r plentyn yn siarad llawer mwy nag arfer. Rwyf newydd edrych yn ôl ar ein data presenoldeb ac yn rhyfeddol, yr wythnos hon yw'r tro cyntaf y mae disgybl arall wedi cyrraedd yr ysgol yn brydlon ers 22 Ionawr. Cyn yr wythnos hon, dim ond dwywaith yr oedd wedi cyrraedd yr ysgol yn brydlon ers y Nadolig.*
- Ailenillodd y Gwasanaeth achrediad y Rhuban Gwyn gan barhau i ddangos cefnogaeth i roi terfyn ar drais dynion yn erbyn menywod.




- Bu'r adran Diogelwch Cymunedol yn cefnogi Wythnos Ymwybyddiaeth Carbon Monocsid, gan atgoffa pobl o bwysigrwydd gosod ac archwilio larymau carbon monocsid yn rheolaidd, trwy hyrwyddo negeseuon allweddol a rhannu stori drasig Rhys Sheridan ar ei sianeli cyfryngau cymdeithasol - #RememberingRhys #CofioRhys. Gofynnodd teulu Rhys i'r Gwasanaeth rannu eu stori ddirdynnol

nhw, er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd cael larwm Carbon Monocsid sydd yn gweithio.



**Yr Adran Cynllunio Rheoli Risg Cymunedol (CRMP)**

- Cynhaliwyd cyfarfodydd Cynllunio a Pherfformio Cymru Gyfan gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gan nodi arfer gorau a gwersi a ddysgwyd ac archwilio cyfleoedd i weithio ar y cyd, lle bo hynny'n bosibl.

- Ar ôl trafodaethau gyda GTAGC a GTADC, trefnwyd cyfarfod cynllunio Cymru Gyfan yn Llandrindod ar 11 Rhagfyr, 2023. Parhaodd ymgysylltiad cadarnhaol â chynghorau tref lleol drwy Ranbarth y Gorllewin, gan ddarparu gwybodaeth am Gynllun CRMP 2040 a meithrin cefnogaeth.

**Yr Adran Fflyd, Peirianneg a Logisteg (FELD)**

- Derbyniodd y Gwasanaeth grant o £200k i'w gynorthwyo i brynu 8 fan ULEV a 12 Gwefrwr Pod Point, a chafodd pob un ohonynt eu rhoi ar waith.

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGC)**

- Cwblhawyd hyfforddiant ar y system ffôn newydd a pharatowyd ffonau newydd i'w dosbarthu ar draws ardal y Gwasanaeth, gydag adborth cadarnhaol wedi dod i law.
- Cynhaliodd yr adran TGCh mewn partneriaeth ag Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol Tarian, sy'n cynnwys Heddlu Dyfed-Powys, Gwent a De Cymru, dair sesiwn seiberddiogelwch rhyngweithiol hwyliog, a chawsant ymateb da. Nod y sesiynau oedd codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bod yn seiberddiogel gartref ac yn y gwaith.



## Risg Corfforaethol

- Yn dilyn cyflwyno menter arloesol i ddefnyddio dŵr gwastraff wedi'i drin mewn digwyddiadau tân, fel dewis amgen yn lle dŵr yfed a ffynonellau dŵr eraill, dyfarnwyd Gwobr Arloesedd y Flwyddyn i'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch yng Ngwobrau Rhagoriaeth mewn Tân ac Argyfwng 2023.



## Ystadau

- Cafodd pwyntiau gwefru cerbydau trydan newydd eu gosod ar safle Pencadlys y Gwasanaeth, yn ystod mis Gorffennaf 2023. Mae’r cyfleusterau gwefru Pod Point yn cynnwys dau bwynt gwefru cyflym 150kW a dau bwynt gwefru 22kW, a all wefru hyd at wyth cerbyd ar unrhyw un adeg, yn ogystal ag is-orsaf 33,000-folt newydd i gyflenwi'r pŵer angenrheidiol ar gyfer y seilwaith gwefru.
- Tyfodd y dolydd blodau gwyllt ar safle'r pencadlys yn dda, gan wella bioamrywiaeth.
- Cymeradwywyd yr adolygiad o beirianneg draenio gynaliadwy ar safle Dafen, gan leihau'r amcangyfrif cost gwreiddiol yn sylweddol. Fe wnaeth y Gwasanaeth bartneru gydag Achub Bywyd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gan osod 23 diffibriliwr ar draws 23 gorsaf nad ydynt yn agos at ddiffibrilwyr mynediad cyhoeddus.




## Cyfarpar Gweithredol a Sicrwydd (OEA)

- Cyflwynwyd cyplyddion rhyddhau cyflym Drager a silindrau Offer Anadlu Nano trwy'r Gwasanaeth; roedd y silindrau yn sylweddol ysgafnach ac felly'n welliant i'r setiau offer anadlu blaenorol.
- Cafodd holl gyfarwyddiadau Technegol Offer Peiriannau eu diweddaru a'u trosi'n Llawlyfrau Offer.

**Caffael a Chontractio**

- Enillodd y tîm Caffael Wobr Cymeradwyaeth Uchel am y Cyflawniad Caffael Gorau yn seremoni Gwobrau Caffael Go Cymru, ar 08 Tachwedd yng Nghaerdydd. Roedd y beirniaid yn cydnabod ymdrechion y tîm i chwalu'r rhwystrau ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) o fewn ardal y Gwasanaeth.
- Cynigiodd Lyreco archwiliad gwastraff am ddim i'r Gwasanaeth fel rhan o Gynllun Gwyrdd Glân Cymru, gan gynorthwyo i baratoi ar gyfer y Rheoliadau Gwastraff newydd sy'n dod i rym ar 6 Ebrill 2024.
- Cwblhawyd dwy astudiaeth achos ar gyfer y fframwaith toi gwastad a'r fframwaith gwaith coed ac adeiladu, gan dynnu sylw at lwyddiant busnesau bach a chanolig lleol.

**Adnoddau Dynol (AD)**

- Cyflwynwyd sesiwn hyfforddi hanner diwrnod ar gyfer AD ar brosesau disgyblu gan Veale Wasbrough Vizards (VWV), a oedd yn canolbwyntio ar arwain a rheoli'r broses ddisgyblu. Trefnwyd hyfforddiant pellach hefyd i'r rhai fydd angen Cadeirio a hwyluso Gwrandawiadau Disgyblu a Charlam, a disgwylir iddo gael ei gynnal ganol mis Hydref.

- Archwiliwyd sefydlu grŵp ffocws Menopos. Bydd hyn yn dilyn ymlaen o'r diwrnod ymwybyddiaeth i gefnogi'r adolygiad o'r weithdrefn Menopos a chreu grŵp cefnogaeth gan gymheiriaid ar gyfer menywod yn y Gwasanaeth.

- **Taliad Ymrwymiad ar gyfer Gweithwyr Ar Alwad** - Gwnaed taliad ymrwymiad o £1,000 i 408 o weithwyr cymwys ym mis Tachwedd 2023. Derbyniodd 8 gweithiwr arall daliad ym mis Rhagfyr 2023, yn dilyn cadarnhad ynghylch seibiannau gyrfa ar gyfer yr unigolion hyn.

- **Recriwtio Amser Cyflawn** Dechreuodd 12 o bersonél Ar Alwad gyflogaeth System Dyletswydd Amser Cyflawn (WDS) ar 25 Ionawr 2024, gan ymgymryd â chwrs trosi 8 wythnos. Cysylltwyd â 12 ymgeisydd arall (pob un yn aelod o'r cyhoedd) a chynigiwyd cyflogaeth yn amodol ar wiriadau cyn-gyflogaeth boddhaol, gyda'r bwriad o drefnu bod ail garfan o recriwtiaid WDS yn dechrau ar 17 Ebrill 2024.

**Rheoli Tân ar y Cyd (JFC)**

- Deliodd yr Ystafell Reoli â sawl digwyddiad mawr ym mis Medi 2023, gyda gwelliant o ran logiau digwyddiadau a gwaith tîm amlwg.
- Cydnabu ymweliad sicrwydd Rhaglen Rhyngweithredu'r Gwasanaethau Brys ar y Cyd (JESIP) ym mis Tachwedd arfer da yn y JFC. Cafwyd adborth cadarnhaol o ymarferion adeiladau uchel iawn diweddar a digwyddiad mawr yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Enwebwyd yr Wylfa Werdd am wobr




Arweiniad Goroesi Tân (lle maent yn aros ar y ffôn gyda'r galwr nes iddynt gael eu hachub gan griwiau) gyda'r orsaf a’r llwyddiant o ran achub tri pherson o silff ar graig wedi hynny.

**Rhanbarth y Gogledd**

- Cynhaliwyd diwrnodau ymgysylltu cymunedol llwyddiannus, gan gynnwys diwrnod agored Gorsaf Dân Aberystwyth gyda phresenoldeb cymunedol da.
- Roedd presenoldeb rhagorol yn y digwyddiadau hyfforddi Fibua dros ddau ddiwrnod, gydag ôl-drafodaeth wedi’i chynllunio i gofnodi’r hyn a ddysgwyd.



- Cynhaliwyd amryw o ddigwyddiadau codi arian ar draws Rhanbarth y Gogledd, gan gynnwys, gwerthiant cacennau elusennol a gynhaliwyd gan Orsaf Dân Llanandras a gododd £1,000 i elusen. Cododd Cyngerdd Carolau'r Trallwng £500, cododd digwyddiad golchi ceir gorsaf Llanwrtyd £772, a chododd criw'r Drenewydd £472 yn ystod digwyddiadau'r Nadolig. Llwyddodd y Diffoddwr Tân Craig o orsaf dân y Drenewydd i gwblhau 496 km ym mis Ionawr, gan godi £1,220 at Elusen y Diffoddwyr Tân. Roedd cyfanswm y digwyddiadau codi arian yn £3,964, a oedd yn swm clodwiw i elusennau.






- Dyfarnwyd Gwobr Diogelwch y Cyhoedd i **Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-muallt** yn y seremoni wobrwyo, a drefnwyd gan [Cymunedau Mwy Diogel Cymru]() ar 30 Tachwedd 2023, yng Ngwesty'r Village yn Abertawe. Dyma gyfle i ddathlu ac arddangos y gwaith gwych sy'n cael ei wneud ledled Cymru i wneud cymunedau'n fwy diogel. Mae’r Grŵp, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.




## Rhanbarth y De

- Llwyddodd sawl diffoddwr tân ar alwad yn eu cyfweliadau amser cyflawn.
- Daeth gorsafoedd achub Dŵr Newydd yng Ngorseinon a Rhydaman yn weithredol, gyda Chynghorwyr yn cael eu gwahodd i Orseinon i gael golwg ar y galluoedd gwell.

## Rhanbarth y Gorllewin

- Arweiniodd Gorsaf Dân Cydweli'r orymdaith yng Ngharnifal Cydweli ar 08 Gorffennaf 2023 gan hyrwyddo recriwtio.
- Cynhaliwyd sawl diwrnod agored ar draws y Rhanbarth, gan gynnwys Dinbych-y-pysgod, Aberdaugleddau, Rhydaman, Caerfyrddin/Pencadlys, a Hwlffordd.
- Cynhaliwyd 11 ymweliad â Chynghorau Tref a Chymuned y Rhanbarth i hyrwyddo Cynllun Rheoli Risg Cymunedol drafft 2040. Dyma gyfle i gasglu adborth a'i ddarparu i'r tîm Cynllunio Rheoli Risg Cymunedol. Darparwyd pum cyflwyniad ychwanegol yn ddigidol cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben.
- Cynhaliodd criwiau o Orsaf Dân Caerfyrddin eu casgliad rhoddion Nadolig blynyddol, ar gyfer Ward Plant Cilgerran yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili. Ddydd Mercher, 20 Rhagfyr, ymwelodd y criw, ynghyd ag aelodau o'r tîm Diogelwch Cymunedol, â Ward Cilgerran i drosglwyddo'r rhoddion a roddwyd yn hael gan fusnesau lleol ac aelodau staff y Gwasanaeth.



- Roedd y criw o Orsaf Dân Caerfyrddin yn bresennol yng nghanol tref Caerfyrddin, Ddydd Gwener, 15 Rhagfyr a dydd Sadwrn, 16 Rhagfyr, i godi arian ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân ac Uned Anghenion Arbennig Ysgol

Myrddin. Yn ystod y ddau ddiwrnod, casglodd aelodau'r criw y swm anrhydeddus o £1,600. Rhannwyd yr arian yn gyfartal rhwng y ddau achos.






## Darparu Hyfforddiant

- Mynychodd staff Achub Technegol y Gwasanaeth gystadleuaeth Ymgyrch Achub y Deyrnas Unedig 2023, gan fethu cyrraedd y podiwm o drwch blewyn yn y gystadleuaeth achub dŵr.
- Cefnogodd yr adran Darparu Hyfforddiant y tîm Chwilio ac Achub Rhyngwladol (ISAR) dramor a phroses Ailddosbarthu'r Cenhedloedd Unedig, yn llwyddiannus, gan ailddosbarthu ISAR fel Tîm USAR trwm y Cenhedloedd Unedig.
- Gwelwyd diffoddwyr tân yn gwirfoddoli i gymryd rhan mewn sesiynau sgrinio iechyd i gynorthwyo Cofrestrfa Canser a Chlefydau Diffoddwyr Tân y DU ym Mhrifysgol Canol Sir Gaerhirfryn (UCLan) i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r achosion cynyddol o ganserau a chlefydau ymhlith diffoddwyr tân ac i nodi'r cysylltiad rhwng galwedigaeth diffoddwr tân a chysylltiad ag elifion a gweddillion tân. Cynhaliwyd sesiynau sgrinio yng Nghanolfan Hyfforddi Earlswood y Gwasanaeth ar 4 a 5 Rhagfyr, gyda chyfanswm o 111 o ddiffoddwyr tân sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd ac sydd wedi ymddeol yn cymryd rhan. Defnyddir y data o'r sesiynau sgrinio hyn i gynorthwyo gyda deall yn well y mathau, tueddiadau ac amrywiad mewn goroesiad canser, gwerthuso'r risg o ganser ymhlith diffoddwyr tân o'u cymharu â gweddill poblogaeth y DU ac i ddysgu mwy am sut y gall rhai mesurau amddiffynnol leihau'r risg o ganser.



- Yn dilyn cytundeb i gryfhau'r gallu Ymatebwr Cyntaf Dŵr gan 13 gorsaf, hwyluswyd a chyflwynwyd y cyrsiau hyfforddiant sgiliau cychwynnol gan yr

adran Darparu Hyfforddiant rhwng Hydref 2023 ac Ionawr 2024. Cyflwynodd y Tîm Achub Technegol, dan arweiniad y Rheolwr Hyfforddi Achub Technegol, yr holl gyrsiau achub dŵr cychwynnol ac ail-ardystio.

- Roedd ymrwymiad y tîm yn golygu bod yr her wedi'i chyflawni, gyda chefnogaeth gan unigolion yn yr adran Ymateb. Dewiswyd tri unigolyn i ymuno â'r adran dros dro, gan dderbyn adborth cadarnhaol a goresgyn heriau hyfforddi yn y gaeaf.
- Ar 21 Mawrth 2024, cynhaliwyd Seremoni Raddio a Gorymdaith Dathlu yng Nghanolfan Hyfforddi Earlswood ar gyfer "Sgwad 01/24," sef 12 unigolyn a gwblhaodd eu cwrs trosi o fod Ar Alwad i Amser Cyflawn.
- Agorwyd yr uned Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol (CFBT) ar 25 Mawrth 2024 gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Derek Walker, gyda nifer o randdeiliaid amrywiol yn mynychu'r seremoni.



**Arall**

- Ym mis Medi 2023, dechreuodd y Gwasanaeth brosiect i wella diogelwch diffoddwyr tân, gan fod astudiaethau diweddar wedi dangos bod diffoddwyr tân yn agored i fwy o halogion mewn tanau, sy'n gysylltiedig â chyfraddau uwch o ganser a phroblemau iechyd meddwl.

HALOGION
CONTAMINANTS

- Fel rhan o'i ymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), cynhaliodd y Gwasanaeth ddigwyddiad 'cerdded yn ein hesgidiau' ar 17 Hydref 2023 fel rhan o Gynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, gan wahodd aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a phartneriaid cymunedol i'n Cyfleuster Hyfforddi yn Earlswood. Trefnwyd y digwyddiad i ehangu ymwybyddiaeth o waith ein partneriaid a gwella rhwydweithiau, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â'n cymunedau. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar dri phrif faes y Gwasanaeth:  Ymateb Gweithredol, Atal (Diogelwch Cymunedol) ac Amddiffyn (Amgylchedd Adeiledig). Roedd y digwyddiad yn llwyddiant

ysgubol, gan roi cipolwg go iawn o’r Gwasanaeth Tân ac Achub modern i’r rhai a oedd yn bresennol



- Ddydd Llun, 21 Awst, ymwelodd yr Aelod o'r Senedd dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, Jane Dodds AS, â Gorsaf Dân y Drenewydd i gwrdd â'r criw yn ogystal ag aelodau o grŵp 'Gwau a Sgwrsio’ lleol y Drenewydd. Roedd y grŵp 'Gwau a Sgwrsio' wedi creu casgliad o eirth tedi lliwgar, pob un â'i gymeriad unigryw ei hun.  Mae’r Tedis hyn yn cael eu rhoi i blant sydd wedi bod mewn digwyddiadau, ac a allai fod wedi cael y profiad yn llethol a brawychus.




- Ddydd Gwener, 4 Awst, ymwelodd Carolyn Harris, Aelod Seneddol Dwyrain Abertawe, â Gorsaf Dân Treforys i gyflwyno sgwrs addysgiadol ac ysbrydoledig 'Menopos yn y Gwaith'.



- Nwyddau mislif hanfodol i'w Dosbarthu gan y Tîm Diogelwch Cymunedol, yn dilyn rhodd garedig gan Hannah Lodder-Rodda, Cynrychiolydd Cymru Menywod yn y Gwasanaeth Tân. Dosbarthwyd y pecynnau gan y Tîm Diogelwch Cymunedol, wrth iddynt fynychu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n ymwneud ag ieuenctid. Roeddent yn cynnwys amrywiaeth o nwyddau mislif sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd a ddylai wella mynediad i'r eitemau hanfodol hyn.




Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.